

Aifeddwl am fwyd yng Nghymru: Brandio a phrosesu bwyd

Mehefin 2019



Cynulliad Cenedlaethol Cymru yw'r corff sy'n cael ei ethol yn ddemocrataidd i gynrychioli buddiannau Cymru a'i phobl, i ddeddfu ar gyfer Cymru, i gytuno ar drethi yng Nghymru, ac i ddwyn Llywodraeth Cymru i gyfrif.

Gallwch weld copi electronig o'r ddogfen hon ar wefan y Cynulliad Cenedlaethol:
www.cynulliad.cymru/SeneddNHAMG

Gellir cael rhagor o gopïau o'r ddogfen hon mewn ffurfiau hygyrch, yn cynnwys Braille, print bras, fersiwn sain a chopïau caled gan:

Y Pwyllgor Newid Hinsawdd, Amgylchedd a Materion Gwledig
Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Bae Caerdydd
CF99 1NA

Ffôn: **0300 200 6565**

E-bost: **SeneddNHAMG@cynulliad.cymru**

Twitter: **[@SeneddNHAMG](https://twitter.com/SeneddNHAMG)**

© **Hawlfraint Comisiwn Cynulliad Cenedlaethol Cymru 2019**

Ceir atgynhyrchu testun y ddogfen hon am ddim mewn unrhyw fformat neu gyfrwng cyn belled ag y caiff ei atgynhyrchu'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol na difriol. Rhaid cydnabod mai Comisiwn Cynulliad Cenedlaethol Cymru sy'n berchen ar hawlfraint y deunydd a rhaid nodi teitl y ddogfen.

Ailfeddwl am fwyd yng Nghymru: Brandio a phrosesu bwyd

Mehefin 2019



Am y Pwyllgor

Sefydlwyd y Pwyllgor ar 28 Mehefin 2016. Ceir ei gylch gwaith yn:
www.cynulliad.cymru/SeneddNHAMG

Cadeirydd y Pwyllgor:



Mike Hedges AC
Llafur Cymru
Dwyrain Abertawe

Aelodau cyfredol y Pwyllgor:



Andrew RT Davies AC
Ceidwadwyr Cymreig
Canol De Cymru



John Griffiths AC
Llafur Cymru
Dwyrain Casnewydd



Llyr Gruffydd AC
Plaid Cymru
Gogledd Cymru



Dai Lloyd AC
Plaid Cymru
Gorllewin De Cymru



Jenny Rathbone AC
Llafur Cymru
Canol Caerdydd



Joyce Watson AC
Llafur Cymru
Canolbarth a Gorllewin Cymru

Roedd yr Aelod a ganlyn hefyd yn aelod o'r Pwyllgor yn ystod yr ymchwiliad hwn.



Gareth Bennett AC
UKIP Cymru
Canol De Cymru

Cynnwys

Trosolwg	5
Casgliadau.....	6
Cyflwyniad	11
Cylch gorchwyl.....	11
Y camau gweithredu	12
1. Strategaeth fwyd gyffredinol newydd i Gymru	13
1.1. Strategaeth fwyd a diod yng Nghymru	13
1.2. Bwyd fel sector sylfaen	14
Tystiolaeth gan y rhanddeiliaid.....	15
Astudiaeth achos 1 - Halen Môn.....	17
2. Brandio bwyd	18
2.1. Hunaniaeth Gymreig	18
Tystiolaeth gan y rhanddeiliaid.....	18
2.2. Hyrwyddo bwyd a diod o Gymru	22
Tystiolaeth gan y rhanddeiliaid.....	22
2.3. Twristiaeth bwyd.....	23
Tystiolaeth gan y rhanddeiliaid.....	23
Astudiaeth achos 2 – Bwyty Dylan’s.....	28
3. Enwau bwydydd gwarchoddedig (Dynodiadau Daeryddol)	29
3.1. Cynlluniau Dynodiadau Daeryddol newydd y DU	29
Tystiolaeth gan y rhanddeiliaid.....	30
Astudiaeth achos 3 - Bangor Mussels	35
4. Prosesu bwyd	36
Tystiolaeth gan y rhanddeiliaid.....	36
Astudiaeth achos 4 - Medwyn’s of Anglesey	40
5. Sgiliau a chyflenwad llafur	41
Tystiolaeth gan y rhanddeiliaid.....	41

Y sector prosesu bwyd41

Y diwydiant twristiaeth a lletygarwch.....42

Atodiad: Tystiolaeth lafar 45

Trosolwg

Dyma ail adroddiad y Pwyllgor sy'n deillio o'i ymchwiliad parhaus i Ailfeddwl am Fwyd yng Nghymru. Mae'r ymagwedd a gymerir yn yr adroddiad hwn yn gyson â'r hyn yn yr adroddiad cyntaf, Ailfeddwl am Fwyd yng Nghymru: Caffael Cyhoeddus mewn cysylltiad â Bwyd. Ni wnaethom ofyn am dystiolaeth gan Lywodraeth Cymru i lywio'r ymchwiliad hwn. Yn hytrach, rydym yn ceisio ymateb i'n casgliadau, a ddefnyddir fel sail ar gyfer craffu yn y dyfodol ar waith Llywodraeth Cymru a'i hymagwedd tuag at ailfeddwl am fwyd yng Nghymru.

Mae'r adroddiad hwn yn nodi safbwyntiau'r Pwyllgor ar sut y dylai Llywodraeth Cymru feddwl am frandio a phrosesu bwyd yng Nghymru yn y cyfnod ar ôl Brexit. Mae Pennod 1 yn ailadrodd yr angen am strategaeth newydd, gyffredinol o ran bwyd a diod yng Nghymru, y galwodd y Pwyllgor amdani yn ei adroddiad cyntaf, *Ailfeddwl am Fwyd yng Nghymru: Caffael Cyhoeddus mewn cysylltiad â Bwyd*. Mae'r penodau eraill yn trafod sut y gellir cryfhau brandio a phrosesu bwyd yng Nghymru er mwyn galluogi'r sector i ateb yr heriau sy'n gysylltiedig â Brexit.

Argymhelliad 1. Rhaid i Lywodraeth Cymru adrodd yn ôl i'r Pwyllgor ar bob un o gasgliadau'r adroddiad hwn o fewn 12 wythnos i'w gyhoeddi, oni nodir yn wahanol. Os bydd Llywodraeth Cymru yn anghytuno ag un o gasgliadau'r Pwyllgor, dylai nodi ei rhesymau am wneud hynny.

Casgliadau

Casgliad 1. Mae'r Pwyllgor yn croesawu bwriad Llywodraeth Cymru i gyflwyno strategaeth newydd ar gyfer bwyd a diod. Rydym yn ailadrodd y dylai'r strategaeth newydd:

- adlewyrchu dull system gyfan sy'n gwneud cysylltiadau rhwng gwahanol feysydd polisi, megis iechyd, lles a chynaliadwyedd, ynghyd â thwf economaidd;
- fod yn seiliedig ar amcanion a nodau Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015; a
- chael cynllun gweithredu i gyd-fynd â hi, gan gynnwys mesurau a thargedau. Tudalen 16

Casgliad 2. Galwodd y Pwyllgor am strategaeth fwyd gyffredinol newydd ar ôl Brexit flwyddyn yn ôl. Er bod Llywodraeth Cymru wedi gwneud cynnydd wrth ddatblygu strategaeth, mae'r ansicrwydd parhaus ynghylch Brexit wedi oedi ei gyflwyniad. Mae amseriad y strategaeth yn aneglur o hyd. **Dylai Llywodraeth Cymru egluro'r amserlen ar gyfer y cynllun gweithredu a'r strategaeth newydd ar gyfer bwyd a diod**..... Tudalen 16

Casgliad 3. Yn dilyn Brexit, bydd y DU yn dechrau cyfres ar wahân o drafodaethau ynghylch ei pherthynas fasnachu yn y dyfodol â'r UE a gweddill y byd. Dylai Llywodraeth Cymru gael llais cyfartal wrth y bwrdd trafod. Mae'n hanfodol bod gan Lywodraeth Cymru weledigaeth glir, strategol ar gyfer sector bwyd Cymru yn seiliedig ar ymrwymiad i gynnal, os nad gwella, ein safonau amgylcheddol, hylendid bwyd a lles anifeiliaid uchel. Dylid adlewyrchu'r weledigaeth strategol hon yn sefyllfa negodi'r DU..... Tudalen 16

Casgliad 4. Rhaid i'r strategaeth newydd ar gyfer bwyd a diod fod yn ddigon hyblyg i ymateb i bwysau a chyfleoedd sy'n deillio o Brexit, gan gynnwys y rheini sy'n gysylltiedig â newidiadau yn yr amgylchedd masnachu..... Tudalen 16

Casgliad 5. Mae cyllid yr UE wedi cefnogi twf y diwydiant bwyd a diod yng Nghymru, yn rhannol o leiaf. Ni fydd yr arian hwn ar gael mwyach ar ôl i'r DU ymadael â'r UE. Rhaid i Lywodraeth Cymru sicrhau bod lefel ddigonol o gyllid ar gael i gyflawni'r cynllun gweithredu a'r strategaeth newydd. **Dylai Llywodraeth Cymru ddarparu manylion am unrhyw asesiad a gynhaliwyd o effaith Brexit ar gyllid ar gyfer y diwydiant bwyd a diod. Dylai hefyd ddarparu manylion am unrhyw drafodaethau y mae wedi'u cael gyda Llywodraeth y DU ar sut yr eir i'r**

afael ag unrhyw ostyngiad mewn cyllid, gan gynnwys canlyniad y trafodaethau hynny..... Tudalen 16

Casgliad 6. Mae'r Pwyllgor yn croesawu'r flaenoriaeth a roddir i'r diwydiant bwyd a diod yng Nghynllun Gweithredu ar yr Economi Llywodraeth Cymru. Clywsom gan y rhanddeiliaid fod statws bwyd y Sector Sylfaen newydd yn rhoi cyfle sylweddol i gryfhau'r diwydiant. Fodd bynnag, nid yw'n glir beth fydd y statws newydd hwn yn ei olygu i'r diwydiant, yn ymarferol. **Dylai Llywodraeth Cymru egluro hyn. Dylai hefyd egluro sut y mae'r strategaeth newydd yn cyd-fynd â'r Cynllun Gweithredu ar yr Economi, a sut y bydd y cynllun galluogi trawslywodraethol sydd ar ddod ar gyfer y Sectorau Sylfaen yn cefnogi'r gwaith o gyflwyno'r strategaeth newydd.**..... Tudalen 16

Casgliad 7. Mae gan yr "hunaniaeth Gymreig" rôl bwysig i'w chwarae wrth hyrwyddo a marchnata cynhyrchion bwyd a diod o Gymru ar lefel ddomestig a rhyngwladol. Gellir ei defnyddio i werthu stori Cymru, ac mae'n galluogi cynhyrchwyr i wahaniaethu rhwng eu cynhyrchion a rhai eu cystadleuwyr. Felly, rhaid i'r hunaniaeth Gymreig fod yn rhan ganolog o ddull Llywodraeth Cymru o hyrwyddo Cymru fel cenedl fwyd..... Tudalen 26

Casgliad 8. Rhaid i Lywodraeth Cymru ddatblygu "hunaniaeth Gymreig" gliriach yn seiliedig ar werthoedd cryf sy'n atseinio ar draws sawl marchnad. Rhaid iddi adlewyrchu'r amrywiaeth o gynnyrch sy'n dod o Gymru, gan gynnwys bwyd môr. Rhaid iddi fod yn seiliedig ar ddealltwriaeth gadarn o anghenion cwsmeriaid mewn marchnadoedd presennol a newydd, a rhaid ei datblygu ar y cyd â chynrychiolwyr ar draws pob sector o'r diwydiant bwyd a diod..... Tudalen 26

Casgliad 9. Mae potensial sylweddol heb ei ddefnyddio mewn rhai marchnadoedd allforio rhyngwladol, fel y gwelir yn adroddiad y Bwrdd Datblygu Amaethyddiaeth a Garddwriaeth, *International Consumer Buying Behaviour*. Rhaid i Lywodraeth Cymru weithio gyda'r diwydiant a, lle bo'n briodol, gydag Adrannau perthnasol Llywodraeth y DU, i fanteisio i'r eithaf ar y potensial hwn ar ôl Brexit..... Tudalen 26

Casgliad 10. Dylai Llywodraeth Cymru ystyried ffyrdd o annog pobl Cymru i brynu cynnyrch lleol. Mae enghreifftiau yn rhyngwladol o ymyriadau a fyddai'n arwain yn anuniongyrchol at gynnydd yn y defnydd o gynnyrch lleol. Er enghraifft, yn yr Eidal, rhaid i fwyd wedi'i rewi a gaiff ei weini mewn bwytai nodi hynny'n glir ar fwydlenni. Tudalen 26

Casgliad 11. Gall hunaniaeth y DU fod yn fodd o gael mynediad at farchnadoedd byd-eang. Gellid ei defnyddio lle bo'n briodol a lle mae manteision clir i gynhyrchwyr o Gymru. Tudalen 27

Casgliad 12. Rhaid i strategaeth newydd Llywodraeth Cymru ar gyfer bwyd a diod wneud cysylltiadau clir â'i strategaeth ar gyfer twristiaeth yng Nghymru. Rhaid i Lywodraeth Cymru nodi cyfleoedd i sicrhau y gellir defnyddio cynnyrch o safon o Gymru, yn arbennig Dynodiadau Daearyddol, i hyrwyddo Cymru fel lleoliad bwyd. Tudalen 27

Casgliad 13. Dylai Llywodraeth Cymru gomisiynu a chyhoeddi dadansoddiad annibynnol o effeithiolrwydd ei Chynllun Gweithredu ar Fwyd a Thwristiaeth. Dylid cwblhau'r gwaith hwn o fewn y 12 mis nesaf a dylid ei ddefnyddio i lywio unrhyw gynllun olynol. Tudalen 27

Casgliad 14. Mae llawer o fanteision yn deillio o Ddynodiadau Daearyddol, gan gynnwys eu gwerth economaidd ac fel arf marchnata. O gofio hyn, mae dyfodol Dynodiadau'r DU yn dilyn Brexit, yn ddealladwy, yn bryder i gynhyrchwyr a chynrychiolwyr y diwydiant. Er bod y cynigion ar gyfer cynlluniau Dynodiadau Daearyddol newydd y DU wedi mynd i'r afael rhywfaint â'r pryder hwn, mae amheuaeth o hyd ynghylch statws y cynlluniau hyn ar y llwyfan rhyngwladol. Nid yw'n hysbys eto a fydd y cynlluniau newydd yr un mor ddeniadol i gynhyrchwyr a defnyddwyr â chynllun presennol yr UE. Tudalen 33

Casgliad 15. Rhaid i Lywodraeth Cymru sicrhau bod buddiannau cynhyrchwyr bwyd yng Nghymru yn cael eu cynrychioli mewn trafodaethau â Llywodraeth y DU wrth i gynlluniau Dynodiadau Daearyddol newydd y DU gael eu datblygu. Rydym yn disgwyl i Lywodraeth Cymru chwarae rôl ystyrlon nid yn unig wrth weinyddu'r cynlluniau newydd, ond wrth eu datblygu. Mae hyn yn cynnwys dylunio logo Dynodiadau Daearyddol newydd y DU. Tudalen 33

Casgliad 16. Bydd sefydlu cydnabyddiaeth brand o dan gynlluniau Dynodiadau Daearyddol newydd y DU yn heriol. Bydd yn cymryd amser a bydd angen buddsoddiad. Bydd strategaeth gyfathrebu effeithiol ar gyfer lansio cynlluniau Dynodiadau Daearyddol newydd y DU yn hanfodol i hyrwyddo ymwybyddiaeth ymhlith cynhyrchwyr a defnyddwyr ar lefel ddomestig a rhyngwladol. Rhaid i Lywodraeth Cymru egluro pa rôl y bydd yn ei chwarae wrth ddatblygu a chyflwyno'r strategaeth hon. Tudalen 34

Casgliad 17. Mae diffyg eglurder ynghylch p'un a fydd cynhyrchion Dynodiad Daeryddol y DU yn parhau i gael eu diogelu yn yr UE ar ôl Brexit. Mae'r Pwyllgor yn pryderu ynghylch yr effaith ar gynhyrchwyr, ac ar y diwydiant yn ehangach, os na chaiff amddiffyniad ei gynnal. Dylai Llywodraeth Cymru:

- ddarparu manylion am unrhyw waith a wnaed i asesu'r effaith ar gynhyrchwyr os na chaiff amddiffyniad o fewn yr UE ei gynnal, a'r camau y mae'n eu cymryd i liniaru hyn, a
- chyflwyno sylwadau i Lywodraeth y DU gyda'r bwriad o sicrhau bod cynhyrchion Dynodiad Daeryddol y DU yn parhau i gael eu gwarchod yn yr UE ar ôl Brexit. Tudalen 34

Casgliad 18. Mae Llywodraeth Cymru wedi bod yn allweddol yn cynyddu nifer y Dynodiadau Daeryddol yng Nghymru yn y blynyddoedd diwethaf. Dylai barhau i adeiladu ar y llwyddiant hwn. Yn sgil sefydlu cynlluniau Dynodiadau Daeryddol newydd y DU, dylai Llywodraeth Cymru nodi ei safbwynt ar gynyddu nifer y Dynodiadau yng Nghymru ar ôl Brexit, a'r ymagwedd tuag at hyn. Wrth wneud hynny, dylai egluro pa gymorth fydd ar gael i gynhyrchwyr sy'n dymuno cofrestru gyda chynlluniau newydd y DU a chyda chynllun yr UE..... Tudalen 34

Casgliad 19. Bydd Llywodraeth y DU yn ceisio trafod trefniadau masnach gyda'r Unol Daleithiau ar ôl Brexit. O ystyried gwrthnawsedd hanesyddol yr Unol Daleithiau tuag at Ddynodiadau Daeryddol, dylai Llywodraeth Cymru geisio ymrwymiad gan Lywodraeth y DU y bydd diogelu'r Dynodiadau yn flaenoriaeth mewn unrhyw drafodaethau o'r fath. Tudalen 34

Casgliad 20. Rhaid i Lywodraeth Cymru wneud mwy i gryfhau a datblygu seilwaith yn y system fwyd. Dylai Llywodraeth Cymru gynnal ymarfer mapio i asesu'r capasiti prosesu presennol yng Nghymru gyda'r bwriad o nodi bylchau. Dylai canlyniad y gwaith hwn lywio datblygiad strategol cyfleusterau prosesu ledled Cymru, gan ganolbwyntio ar weithgareddau gwerth ychwanegol. Dylid rhoi blaenoriaeth i fynd i'r afael â bylchau mewn capasiti..... Tudalen 39

Casgliad 21. Dylai Llywodraeth Cymru sefydlu grŵp a arweinir gan y diwydiant i ystyried ymyriadau polisi posibl gyda'r nod o gynyddu capasiti prosesu yng Nghymru, gyda ffocws ar weithgareddau gwerth ychwanegol. Dylai'r grŵp hwn asesu, yn benodol, y cyfleoedd a'r risgiau sy'n deillio o Brexit, gan gynnwys y potensial i gynyddu capasiti prosesu yn y diwydiannau pysgota a dyframaeth. Tudalen 39

Casgliad 22. Dylai Llywodraeth Cymru adolygu priodoldeb y cymorth presennol sydd ar gael i fusnesau prosesu bwyd newydd a phresennol. Dylai gynnwys asesiad o'r graddau y mae cymorth cyfredol yn mynd i'r afael â'r heriau penodol a wynebir gan fusnesau mewn ardaloedd gwledig sy'n ceisio ehangu.....Tudalen 39

Casgliad 23. Clywodd y Pwyllgor fod mynediad at lafur yn her allweddol i'r diwydiant bwyd a diod, a'r diwydiant twristiaeth a lletygarwch. Mae'r rhain i gyd yn dibynnu'n drwm ar weithwyr mudol yr UE. Bydd newidiadau i'r polisi mewnfudo ar ôl Brexit yn arwain at system lawer mwy cyfyngol ar gyfer gweithwyr mudol yr UE sydd â sgiliau isel a gallai arwain at brinder sylweddol o weithwyr yn y diwydiannau hyn. Gall rhai sectorau, er enghraifft, y sector prosesu cig coch, fod yn arbennig o agored i niwed, o gofio'r anawsterau penodol y maent yn eu hwynebu wrth ddenu gweithwyr yn y DU.....Tudalen 43

Casgliad 24. Dylai Llywodraeth Cymru nodi ei safbwynt ar system fewnfudo newydd arfaethedig Llywodraeth y DU. Yn benodol, y trothwy isafswm cyflog arfaethedig o £30,000 ar gyfer gweithwyr medrus canolig ac uchel. Wrth wneud hynny, dylai Llywodraeth Cymru egluro'r effaith y mae'n disgwyl i'r cynigion hyn ei chael ar y diwydiant bwyd a diod, a'r diwydiant twristiaeth a lletygarwch yng Nghymru.....Tudalen 43

Casgliad 25. Efallai y bydd rhaglen waith barhaus Llywodraeth Cymru i fynd i'r afael â phrinder sgiliau yn y gweithlu yng Nghymru, gan gynnwys ei strategaeth, *Trawsnewid Sgiliau yn y Diwydiant Bwyd a Diod yng Nghymru*, yn gwella rhywfaint ar argaeledd llafur yn y diwydiant bwyd a diod, a'r diwydiant twristiaeth a lletygarwch, yn y tymor hwy. Fodd bynnag, mae'n aneglur sut y mae Llywodraeth Cymru yn bwriadu lliniaru effaith cyfyngiadau ar fynediad i weithwyr mudol yr UE ar y diwydiannau hyn yn y cyfnod yn union ar ôl Brexit ac yn y tymor byrrach. Rhaid i Lywodraeth Cymru egluro'r mater hwn fel mater o frys.....Tudalen 43

Cyflwyniad

1. Ym mis Mehefin 2017, lansiodd y Pwyllgor Newid Hinsawdd, Amgylchedd a Materion Gwledig ymchwiliad eang i ddyfodol bwyd yng Nghymru. Roedd gennym ddiddordeb mewn canfod sut y gallwn ailfeddwl am fwyd yng Nghymru fel y gellir sicrhau:

- Bwyd iach, a gynhyrchir yn lleol sy'n hygyrch ac yn fforddiadwy;
- Diwydiant bwyd arloesol sy'n cynnal swyddi o ansawdd da;
- Bwyd a gynhyrchir mewn modd cynaliadwy â safonau amgylcheddol a lles anifeiliaid uchel; a
- Chyrchfan sy'n enwog yn rhyngwladol ar gyfer y rhai sy'n hoff o fwyd.

2. Roedd llinyn cyntaf ein hymchwiliad yn canolbwyntio ar gaffael cyhoeddus. Ym mis Mai 2018, cyhoeddwyd ein hadroddiad cyntaf, *Ailfeddwl am fwyd yng Nghymru: Caffael Cyhoeddus mewn cysylltiad â Bwyd*, sy'n nodi ein gweledigaeth ar gyfer caffael bwyd yn gyhoeddus yn y sector bwyd ehangach ac yn galw am strategaeth newydd, cyffredinol ar gyfer bwyd a diod. Ym mis Awst 2018, *ymatebodd Llywodraeth Cymru i'n hadroddiad*.

3. Ym mis Ionawr 2019, gwnaethom gytuno i barhau â'n gwaith ar ailfeddwl am fwyd yng Nghymru, gan ganolbwyntio ar frandio a phrosesu bwyd. Cytunwyd hefyd i wneud gwaith ar randiroedd a thyfu cymunedol, a byddwn yn cyhoeddi adroddiad ar wahân ar y rhain maes o law.

Cylch gorchwyl

4. Roedd yr ymchwiliad yn ystyried y canlynol:

- Strategaeth a gweithgarwch Llywodraeth Cymru i hyrwyddo cynhyrchion bwyd o Gymru yn y DU ac yn rhyngwladol;
- Strategaeth a gweithgarwch Llywodraeth Cymru i gefnogi cynhyrchwyr bwyd o Gymru i ddatblygu eu brand;
- Gweithgarwch Llywodraeth y DU i hyrwyddo cynhyrchion bwyd o Gymru yn rhyngwladol;
- Gwerth brandio bwyd fel lleol, Cymreig, Prydeinig neu fel arall;

- Gwerth Enwau Bwyd Gwarchoddedig (neu “Ddynodiadau Daearyddol”), gan gynnwys cynigion Llywodraeth y DU ar gyfer cynllun newydd ar gyfer y DU ar ôl Brexit;
- Gwerth brandio bwyd yn y sector twristiaeth a lletygarwch;
- Strategaeth a chefnogaeth Llywodraeth Cymru i broseswyr bwyd; a
- Thueddiadau mewn capasiti prosesu yng Nghymru a sut y gallai Brexit effeithio ar hyn.

Y camau gweithredu

5. Defnyddiwyd ymatebion i’n hymgyngoriad cychwynnol i lywio ein gwaith. Cynhaliwyd cyfarfodydd ar 6 Mawrth a 20 Mawrth i gael tystiolaeth lafar gan amrywiaeth o dystion. Mae manylion am y rhain ar gael ar ddiwedd yr adroddiad hwn. Ar 28 Mawrth, ymwelwyd â Halen Môn, Bwyty Dylan’s, Bangor Mussels a Medwyn’s of Anglesey i glywed yn uniongyrchol gan fusnesau yn y diwydiant bwyd a diod. Hoffem ddiolch i bawb a gyfrannodd at yr ymchwiliad hwn.

1. Strategaeth fwyd gyffredinol newydd i Gymru

Yn ein hadroddiad, *Ailfeddwl am fwyd yng Nghymru: Caffael Cyhoeddus mewn cysylltiad â Bwyd*, pwysleisiwyd yr angen i Lywodraeth Cymru ddatblygu a gweithredu strategaeth fwyd newydd ar ôl Brexit, i gael ei hategu gan lefel briodol o gefnogaeth a buddsoddiad.

1.1. Strategaeth fwyd a diod yng Nghymru

6. Cyflwynwyd strategaeth fwyd a diod gyffredinol Llywodraeth Cymru, sef *Bwyd i Gymru, Bwyd o Gymru 2010-2020*, yn 2010. Er bod cyfnod y strategaeth yn parhau tan 2020, mewn gwirionedd, mae wedi'i disodli gan y ddogfen *Tuag at Dwf Cynaliadwy: Cynllun Gweithredu ar gyfer y Diwydiant Bwyd a Diod 2014-20* (y Cynllun Gweithredu).

7. Prif amcan y Cynllun Gweithredu yw cynyddu'r trosiant yn y sector blaenoriaeth bwyd a ffermio o'r gadwyn fwyd 30 y cant o linell sylfaen 2013, sef o £5.2 biliwn i £7 biliwn y flwyddyn erbyn 2020. Mae hefyd yn anelu at gynyddu Gwerth Ychwanegol Gros y sector bwyd a ffermio 10 y cant, i £1.4 biliwn y flwyddyn erbyn 2020.

8. Amlygodd ein hadroddiad, *Ailfeddwl am fwyd yng Nghymru: Caffael Cyhoeddus mewn cysylltiad â Bwyd*, fod cynnydd sylweddol wedi'i wneud tuag at gyflawni amcan canolog y Cynllun Gweithredu. Fodd bynnag, roedd llawer o gyfranwyr i'n hymchwiliad cychwynnol yn credu bod y Cynllun Gweithredu yn canolbwyntio'n rhy gul ar weithgarwch ar ôl giât y fferm ac effaith economaidd.

9. Daethom i'r casgliad bod angen y canlynol:

- gweledigaeth strategol ar gyfer y sector bwyd yng Nghymru sy'n gwneud cysylltiadau rhwng gwahanol feysydd polisi, fel iechyd, lles a chynaliadwyedd, ynghyd â thwf economaidd, a
- strategaeth fwyd gyffredinol, newydd, ar ôl Brexit sy'n adlewyrchu dull system gyfan. Dylai'r strategaeth gael ei hategu gan amcanion a nodau Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 a dylid cynnwys cynllun gweithredu gyda hi, gan gynnwys mesurau a thargedau.

10. Wrth ymateb i'n hadroddiad ym mis Awst 2018, dywedodd Llywodraeth Cymru wrthym ei bod yn bwriadu paratoi cynllun gweithredu a strategaeth fwyd olynol. Ers hynny, mae wedi bod yn gweithio gyda'r Bwrdd Diwydiant Bwyd a Diod (y Bwrdd) a rhanddeiliaid i ddatblygu'r rhain.¹

11. Arwyddion cynnar gan Lywodraeth Cymru yw y bydd themâu eang y strategaeth yn cynnwys y canlynol:

- Tyfu ein Busnesau,
- Hyrwyddo Cymru y Genedl Fwyd, a
- Bod o fudd i'n Pobl a'n Cymdeithas.²

1. 2. Bwyd fel sector sylfaen

12. Mae'r diwydiant bwyd a diod yn un o'r pedwar "Sector Sylfaen" a nodwyd yn *Ffyniant i Bawb: y cynllun gweithredu ar yr economi* Llywodraeth Cymru, yn ogystal â thwristiaeth. Mae'r Cynllun Gweithredu ar yr Economi yn cynnwys yr ymrwymiad a ganlyn:

"Byddwn yn gweithio i gefnogi[r] pedwar sector sylfaen...mewn ffordd gydgysylltiedig a chyson ar draws y Llywodraeth. Byddwn yn gweithio gyda'r sectorau i ddeall yr heriau sy'n eu hwynebu a'r cyfleoedd iddynt dyfu ac arloesi. Byddwn yn datblygu cynlluniau galluogi ar draws y Llywodraeth i gynyddu'u heffaith...Drwy ddatblygu modelau cymorth a phartneriaethau newydd yn yr ardaloedd hyn, gallwn roi help llaw i fentrau bach sydd â'u gwreiddiau mewn cymunedau lleol ac sydd, yn aml, yn fregus, fod yn fwy cynhyrchiol. Gallwn eu hannog hefyd i feithrin sgiliau ac i ddatblygu modelau busnes mwy cynaliadwy."³

13. Yn ddiweddar, cyhoeddodd Llywodraeth Cymru lansiad cronfa newydd i gefnogi prosiectau arloesol i dreialu gwahanol ddulliau. Rhagwelir y bydd y gronfa ar agor ar gyfer cynigion yn gynnar yn y flwyddyn ariannol newydd.⁴

¹ www.assembly.wales/laid%20documents/gen-ld11735/gen-ld11735-w.pdf

²

<https://businesswales.gov.wales/foodanddrink/sites/foodanddrink/files/Canlyniad%20ymarfer%20ymgysylltu%20cychwynnol.pdf>

³ <https://llyw.cymru/sites/default/files/publications/2019-02/ffyniant-i-bawb-y-cynllun-gweithredu-ar-yr-economi.pdf>

⁴ https://llyw.cymru/datganiad-ysgrifenedig-yr-economi-sylfaenol?_ga=2.46072036.1720716079.1558422680-1364246629.1539078017

Tystiolaeth gan y rhanddeiliaid

- 14.** Roedd y dystiolaeth a gafwyd gan y rhanddeiliaid yn ategu'r casgliad yn ein hadroddiad blaenorol, bod angen strategaeth fwyd gyffredinol, newydd ar ôl Brexit, sy'n adlewyrchu dull system gyfan.
- 15.** Nododd Wynfford James (Sgema Limited) fod y "weledigaeth allweddol" a nodwyd yn *Bwyd i Gymru, Bwyd o Gymru 2010 - 2020* yn berthnasol o hyd i'r gwaith o ddatblygu'r strategaeth newydd⁵. Dywedodd wrth y Pwyllgor fod Llywodraeth Cymru wedi methu â'i gweithredu'n llawn.⁶
- 16.** Dywedodd yr Athro Terry Marsden (Prifysgol Caerdydd), cyd-awdur adroddiad Sefydliad Polisi Cyhoeddus i Gymru, *Food Policy as Public Policy: A Review of the Welsh Government's Food Strategy and Action Plan* (Mehefin 2016), wrth y Pwyllgor nad oedd Llywodraeth Cymru wedi ymateb i argymhellion yr adroddiad. Dywedodd fod llawer o'r adroddiad yn berthnasol o hyd a bod y materion nawr yn fwy brys nag oeddent dair blynedd yn ôl, mewn sawl ffordd.⁷
- 17.** Pwysleisiodd Wynfford James y byddai cyflawni'r strategaeth newydd yn llwyddiannus yn gofyn am ymrwymiad a buddsoddiad hirdymor. Gwnaeth yr Athro Marsden bwyntiau tebyg.
- 18.** Dywedodd Andy Richardson, Cadeirydd y Bwrdd wrth y Pwyllgor fod strategaeth ddrafft newydd Llywodraeth Cymru yn barod ar gyfer ymgynghoriad ond bod hyn wedi'i ohirio hyd nes y ceir canlyniadau Brexit.⁸ Ar adeg ysgrifennu'r adroddiad hwn, nid yw'r strategaeth ddrafft wedi'i chyhoeddi eto.

Casgliad 1. Mae'r Pwyllgor yn croesawu bwriad Llywodraeth Cymru i gyflwyno strategaeth newydd ar gyfer bwyd a diod. Rydym yn ailadrodd y dylai'r strategaeth newydd:

- adlewyrchu dull system gyfan sy'n gwneud cysylltiadau rhwng gwahanol feysydd polisi, megis iechyd, lles a chynaliadwyedd, ynghyd â thwf economaidd;
- fod yn seiliedig ar amcanion a nodau Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015; a

⁵ Cofnod y Trafodion, paragraff 11, 20 Mawrth 2019

⁶ Cofnod y Trafodion, paragraff 12, 20 Mawrth 2019

⁷ Cofnod y Trafodion, paragraff 242, 20 Mawrth 2019

⁸ Cofnod y Trafodion, paragraff 112, 6 Mawrth 2019

- chael cynllun gweithredu i gyd-fynd â hi, gan gynnwys mesurau a thargedau.

Casgliad 2. Galwodd y Pwyllgor am strategaeth fwyd gyffredinol newydd ar ôl Brexit flwyddyn yn ôl. Er bod Llywodraeth Cymru wedi gwneud cynnydd wrth ddatblygu strategaeth, mae'r ansicrwydd parhaus ynghylch Brexit wedi oedi ei gyflwyniad. Mae amseriad y strategaeth yn aneglur o hyd. **Dylai Llywodraeth Cymru egluro'r amserlen ar gyfer y cynllun gweithredu a'r strategaeth newydd ar gyfer bwyd a diod.**

Casgliad 3. Yn dilyn Brexit, bydd y DU yn dechrau cyfres ar wahân o drafodaethau ynghylch ei pherthynas fasnachu yn y dyfodol â'r UE a gweddill y byd. Dylai Llywodraeth Cymru gael llais cyfartal wrth y bwrdd trafod. Mae'n hanfodol bod gan Lywodraeth Cymru weledigaeth glir, strategol ar gyfer sector bwyd Cymru yn seiliedig ar ymrwymiad i gynnal, os nad gwella, ein safonau amgylcheddol, hylendid bwyd a lles anifeiliaid uchel. Dylid adlewyrchu'r weledigaeth strategol hon yn sefyllfa negodi'r DU.

Casgliad 4. Rhaid i'r strategaeth newydd ar gyfer bwyd a diod fod yn ddigon hyblyg i ymateb i bwysau a chyfleoedd sy'n deillio o Brexit, gan gynnwys y rheini sy'n gysylltiedig â newidiadau yn yr amgylchedd masnachu.

Casgliad 5. Mae cyllid yr UE wedi cefnogi twf y diwydiant bwyd a diod yng Nghymru, yn rhannol o leiaf. Ni fydd yr arian hwn ar gael mwyach ar ôl i'r DU ymadael â'r UE. Rhaid i Lywodraeth Cymru sicrhau bod lefel ddigonol o gyllid ar gael i gyflawni'r cynllun gweithredu a'r strategaeth newydd. **Dylai Llywodraeth Cymru ddarparu manylion am unrhyw asesiad a gynhaliwyd o effaith Brexit ar gyllid ar gyfer y diwydiant bwyd a diod. Dylai hefyd ddarparu manylion am unrhyw drafodaethau y mae wedi'u cael gyda Llywodraeth y DU ar sut yr eir i'r afael ag unrhyw ostyngiad mewn cyllid, gan gynnwys canlyniad y trafodaethau hynny.**

Casgliad 6. Mae'r Pwyllgor yn croesawu'r flaenoriaeth a roddir i'r diwydiant bwyd a diod yng Nghynllun Gweithredu ar yr Economi Llywodraeth Cymru. Clywsom gan y rhanddeiliaid fod statws bwyd y Sector Sylfaen newydd yn rhoi cyfle sylweddol i gryfhau'r diwydiant. Fodd bynnag, nid yw'n glir beth fydd y statws newydd hwn yn ei olygu i'r diwydiant, yn ymarferol. **Dylai Llywodraeth Cymru egluro hyn. Dylai hefyd egluro sut y mae'r strategaeth newydd yn cyd-fynd â'r Cynllun Gweithredu ar yr Economi, a sut y bydd y cynllun galluogi trawslywodraethol sydd ar ddod ar gyfer y Sectorau Sylfaen yn cefnogi'r gwaith o gyflwyno'r strategaeth newydd.**

Astudiaeth achos 1 - Halen Môn

Yn ystod ei ymchwiliad, ymwelodd y Pwyllgor â Halen Môn a chwrdd â chyd-sylfaenydd y Cwmni, Alison Lea-Wilson.

Mae Halen Môn yn cynhyrchu ystod o halen a chynhyrchion halen eraill gan ddefnyddio halen a gaiff ei gynaeafu o Afon Menai.

Cynhyrchir yr halen gyda llaw gan ddefnyddio technegau traddodiadol ac mae wedi ennill statws Enw Tarddiad Gwarchoddedig yr UE. Mae cynhyrchion Halen Môn ar gael ym mwytaï a chan fanwerthwyr arbenigol yn y DU a thros 20 o wledydd eraill.

Yn ddiweddar, mae Halen Môn wedi agor atyniad i ymwelwyr sy'n cynnwys teithiau o'r ardal gynhyrchu. Cafwyd 15,000 o ymwelwyr y llynedd.

Mae'r statws Enw Tarddiad Gwarchoddedig yn bwysig iawn i Halen Môn. Mae'n ei ddisgrifio fel y "nod dilysrwydd gorau un" ac yn fantais, yn arbennig yn y marchnadoedd allforio yn yr Eidal a Sbaen. Nid yw am gael logos ar wahân ar ei gynhyrchion ar gyfer marchnadoedd y DU a'r UE ar ôl Brexit gan y byddai hyn yn ychwanegu cost iddo a bydd y gydnabyddiaeth o logo y DU yn isel a byddai angen ei hyrwyddo'n sylweddol.

Mae Alison yn gweithio gyda grwpiau bwyd lleol ar yr ynys ac mae'n galw am fwy o gyllid i gefnogi cydweithrediad, yn arbennig wrth ddatblygu cadwyni cyflenwi.

Pwysleisiodd Alison hefyd fod Llywodraeth Cymru yn gefnogol iawn yn gyffredinol o'r sector bwyd a diod ond y gellid meddwl mwy am ddau faes:

- Sut i drosi busnesau canolig yn fusnesau mawr; a
- Chynllunio olyniaeth ar gyfer busnesau sydd â pherchnogion sydd ar fin ymddeol.

Mae Halen Môn yn gweithio gyda Llywodraeth Cymru i ddatblygu "nod cynaliadwyedd Cymru". Ni fyddai ond yn ymwneud â blas, ond hefyd o ran codi safonau cynaliadwyedd a marchnadwyedd.

2. Brandio bwyd

2.1. Hunaniaeth Gymreig

19. Nod Cynllun Gweithredu Llywodraeth Cymru ar gyfer y Diwydiant Bwyd a Diod 2014-2020 (y Cynllun Gweithredu) yw datblygu hunaniaeth bwyd a diod Cymru.⁹ Yn 2013, penderfynodd Llywodraeth Cymru symud i ffwrdd o frand “Cymru y Gwir Flas” oherwydd “nad oedd cydnabyddiaeth na dealltwriaeth ddigonol o[r] fenter ymysg masnachwyr a defnyddwyr, yn y farchnad ddomestig ac yn enwedig mewn marchnadoedd allforio”. Yn lle hynny, sefydlodd Llywodraeth Cymru yr hunaniaeth fasnach, “Bwyd a Diod Cymru”.¹⁰

20. Fel y soniwyd, arwyddion cynnar gan Lywodraeth Cymru a'r Bwrdd Diwydiant Bwyd a Diod (y Bwrdd), yw mai un o themâu'r strategaeth newydd ar gyfer bwyd a diod fydd “Hyrwyddo Cymru y Genedl Fwyd”.¹¹

Tystiolaeth gan y rhanddeiliaid

21. Tynnodd y rhanddeiliaid sylw at bwysigrwydd y “hunaniaeth Gymreig” wrth hyrwyddo a marchnata cynhyrchion bwyd a diod o Gymru ar lefel ddomestig a rhyngwladol. Tynnwyd sylw hefyd at y manteision sy'n gysylltiedig â hunaniaeth Gymreig, er enghraifft, gwerthiannau cynnyrch cynyddol a galluogi cynhyrchion i gael eu gwerthu am bris uchel.

22. Dywedodd Dr Robert Bowen (Prifysgol Abertawe) wrth y Pwyllgor fod hunaniaeth Gymreig bwyd yn ffactor gwahaniaethol pwysig oherwydd treftadaeth bwyd Cymru ac enw da cynyddol am gynhyrchu bwydydd o ansawdd uchel.¹²

9

<https://businesswales.gov.wales/foodanddrink/sites/foodanddrink/files/documents/Tuag%20at%20Dwf%20Cynaliadwy%20-%20Cynllun%20Gweithredu%20ar%20Cyfer%20y%20Diwydiant%20Bwyd%20a%20Diod%202014-2020%20%28T%29.pdf>

10

<https://businesswales.gov.wales/foodanddrink/sites/foodanddrink/files/documents/Tuag%20at%20Dwf%20Cynaliadwy%20-%20Cynllun%20Gweithredu%20ar%20Cyfer%20y%20Diwydiant%20Bwyd%20a%20Diod%202014-2020%20%28T%29.pdf>

11

<https://businesswales.gov.wales/foodanddrink/sites/foodanddrink/files/Canlyniad%20ymarfer%20ymgysylltu%20cychwynnol.pdf>

¹² Tystiolaeth ysgrifenedig. Dr Robert Bowen

23. Dywedodd Gwyn Howells (Hybu Cig Cymru) mai rhan allweddol o'r strategaeth allforio ar gyfer Cig Oen Cymru a Chig Eidion Cymru yn arbennig oedd targedu marchnadoedd premiwm. Dywedodd fod yr "hunaniaeth Gymreig" wedi'i defnyddio i wahaniaethu'r cynnyrch o offrymau eraill ac roedd yn ganolog i'r dull hwnnw. Aeth ymlaen i egluro:

"...the Welsh landscape and distinctively Welsh values and imagery have been used consistently over the past decades to convey a brand which is rooted in positive perceptions of Welsh agriculture as being low-intensity, high-welfare and in tune with the natural environment."¹³

24. Dywedodd Andy Richardson wrth y Pwyllgor fod yr hunaniaeth Gymreig yn ymwneud â mwy na dim ond logos. Mae'n ymwneud â beth yw gwerthoedd Cymru, a rhaid i'r gwerthoedd hynny atseinio a gwneud gwahaniaeth yn fyd-eang.¹⁴

25. Eglurodd y bydd cryfhau'r hunaniaeth Gymreig yn rhan bwysig o'r strategaeth newydd. At hynny, eglurodd fod gwaith yn cael ei wneud i ddatblygu gwerthoedd brand cynaliadwy, a fydd yn gwahaniaethu cynhyrchion bwyd o Gymru mewn marchnad sy'n newid.¹⁵

26. Nododd Simon Wright (Wright's Food Emporium), er bod y ffordd y caiff bwyd a diod o Gymru eu brandio yn bwysig iawn y bydd ei lwyddiant bob amser yn dibynnu ar ansawdd yr hyn a gynigir.¹⁶ Gwnaeth Dr Matthew O'Callaghan (Cymdeithas Enwau Bwyd Gwarchoddedig y DU) bwynt tebyg, ac awgrymodd fod rhinweddau cynhenid cynnyrch yn bwysicach na sut y caiff ei frandio.¹⁷

27. Cyfeiriodd nifer o'r rhanddeiliaid at ganfyddiadau ymchwil adroddiad a gomisiynwyd gan Lywodraeth Cymru, *Gwerth Cymreictod: Awydd y Siopwr am Gynnyrch Cymreig* (2017), a oedd yn ystyried y gwerth y mae siopwyr yng Nghymru a gweddill Prydain Fawr yn ei roi ar "Gymreictod". Dyma'r prif ganfyddiadau:

- Mae siopwyr yng Nghymru o'r farn bod bwyd a diod o Gymru o "Ansawdd Gwych" (85 y cant) ac yn "Blasu'n Dda" (80 y cant).

¹³ [Tystiolaeth ysgrifenedig. Hybu Cig Cymru](#)

¹⁴ Cofnod y Trafodion, paragraff 114, 6 Mawrth 2019

¹⁵ Cofnod y Trafodion, paragraff 114, 6 Mawrth 2019

¹⁶ [Tystiolaeth ysgrifenedig. Wright's Food Emporium](#)

¹⁷ Cofnod y Trafodion, paragraff 95, 20 Mawrth 2019

- Byddai 8 o bob 10 siopwr yng Nghymru (78 y cant) bob amser yn prynu cynnyrch Cymreig pe bai'r pris yn iawn a byddai 44 y cant yn talu mwy am gynnyrch Cymreig.
- Mae siopwyr y tu allan i Gymru hefyd yn credu bod Cymru yn adnabyddus am fwyd a diod o ansawdd da a hoffai gefnogi bwyd a diod o Gymru.
- Hoffai 29 y cant o siopwyr y tu allan i Gymru weld mwy o fwyd a diod o Gymru yn eu siopau.
- Mae Cymru yn fwy cysylltiedig â chynnyrch naturiol na Phrydain Fawr.

28. Roedd y gwaith ymchwil hefyd yn edrych ar ganfyddiad Dynodiad Daearyddol Gwarchoddedig Cig Oen Cymru. Daeth yr adroddiad i'r casgliad a ganlyn:

“Mae'r rhain yn ganfyddiadau cadarnhaol i Gig Oen PGI Cymru, gan ddangos ffafriaeth gref gan ddefnyddwyr ledled Prydain. Mae'r dystiolaeth yn cael ei chefnogi gan werthiant adwerthu gwirioneddol. Gwelodd Aldi werthiant cig oen yn codi 25% wrth newid i werthu cig oen brand Cymreig.”¹⁸

29. Adroddodd Huw Thomas (Puffin Produce) ganlyniad tebyg ar gyfer ei gwmni pan ddisodlodd faner yr Undeb gyda baner Cymru ar gyfer tatws a llysiau. Dywedodd wrth y Pwyllgor fod hyn wedi creu codiadau gwerthiant tebyg i debyg o rhwng 20 y cant a 33 y cant. At hynny, cafwyd cynnydd o 33 y cant mewn cyfaint pan ddechreuodd Puffin gyflenwi amrediad tatws cynhwysfawr i'r 47 o siopau Aldi yng Nghymru yn 2017.¹⁹

30. Roedd cefnogaeth gref i ddefnyddio'r hunaniaeth Gymreig dros frand bwyd Prydain i hyrwyddo cynhyrchion bwyd a diod o Gymru dramor, gyda'r canfyddiad gwael o fwyd Prydain yn cael ei nodi fel y prif reswm am hyn. Cyfeiriodd nifer o'r rhanddeiliaid at ganfyddiadau adroddiad y Bwrdd Datblygu Amaethyddiaeth a Garddwriaeth, *International Consumer Buying Behaviour* fel tystiolaeth i gefnogi'r farn hon.

¹⁸

https://businesswales.gov.wales/foodanddrink/sites/foodanddrink/files/documents/gwerth_cymreic_tod.pdf

¹⁹ Tystiolaeth ysgrifenedig, Puffin Produce

31. Cyflwynodd yr adroddiad ymchwil ar agweddau defnyddwyr tuag at frand bwyd Prydain mewn naw marchnad dramor²⁰, gyda'r canfyddiadau'n cael eu cofnodi fel rhai "cadarnhaol", "negyddol" a "ddim yn gwybod". Canfu fod gan Tsieina ac India y canfyddiad mwyaf cadarnhaol, gan sgorio 50 y cant a 53 y cant yn y drefn honno. O'r saith gwlad sy'n weddill, "ddim yn gwybod" oedd yr ymateb pennaf. O'r rhain, roedd ymatebion Saudi Arabia a'r Emiraethau Arabaidd Unedig yn fwy "cadarnhaol" na "negyddol". Fodd bynnag, yn y pum gwlad arall, roedd mwy o "negyddol" na "chadarnhaol", gyda'r ddau ganfyddiad negyddol mwyaf i'w cael yn Ffrainc a'r Almaen (22 y cant ac 16 y cant yn y drefn honno).²¹

32. Dywedodd Dr Bowen:

"It appears that Brexit has had a negative impact on the reputation of the UK in many countries, particularly in Europe, which is the biggest export market for Welsh food. The recent report by the Agricultural and Horticultural Development Board (AHDB) showed that a considerably more negative perception of British food was seen in Canada, France, Germany, Japan and the USA. As such, branding foods as Welsh would be more advantageous to build on the recent developments of the Welsh brand."²²

33. Dywedodd Gwyn Howells wrth y Pwyllgor fod hunaniaeth Cymru yn y farchnad Ewropeaidd yn llawer cryfach na brand bwyd Prydain. Er gwaethaf hyn, cydnabu y gallai defnyddio brand bwyd Prydain helpu i ddarparu llwybr i farchnadoedd byd-eang, er enghraifft, Tsieina, lle mae ymwybyddiaeth o Gymru yn fach iawn.²³ Dywedodd:

"Mae eu hymwybyddiaeth nhw o Brydain yn llawer iawn cryfach. Felly, mae yna gyfle yna i ni ddefnyddio yr arf yna i agor y drws ac wedyn, unwaith rŷn ni mewn yn y marchnadoedd yna, datblygu'r stori [Gymreig]."²⁴

²⁰ Roedd yr arolwg yn cynnwys: India, Tsieina, Saudi Arabia, yr Emiraethau Arabaidd Unedig, Canada, Ffrainc, UDA, Japan a'r Almaen.

²¹

https://projectblue.blob.core.windows.net/media/Default/Market%20Insight/Horizon_InterConsumer-march2018.pdf

²² Tystiolaeth ysgrifenedig, Dr. Robert Bowen

²³ Cofnod y Trafodion, paragraff 68, 6 Mawrth 2019

²⁴ Cofnod y Trafodion, paragraff 65, 6 Mawrth 2019

34. Adleisiodd Andy Richardson y farn hon. Eglurodd fod ymgyrch GREAT Britain Llywodraeth y DU yn dda iawn am agor marchnadoedd tramor nad yw Cymru yn adnabyddus ynddynt, er enghraifft, y Dwyrain Canol.²⁵

35. Fodd bynnag, rhybuddiodd Dr O’Callaghan fod perygl bod Llywodraeth y DU yn hyrwyddo bwyd o Gymru ond yn atgyfnerthu’r farn bod Cymru a bwyd Cymru yn is-set ac yn union yr un fath â bwyd yn Lloegr yn hytrach na’n rhywbeth unigryw.²⁶

2. 2. Hyrwyddo bwyd a diod o Gymru

36. Mae Cynllun Gweithredu Llywodraeth Cymru yn nodi y bydd Hunaniaeth Bwyd a Diod Cymru yn arwain y ffordd wrth hyrwyddo ansawdd cynhyrchion bwyd a diod o Gymru. Dywed fod yn rhaid i Gymru dargedu’r marchnadoedd allforio sy’n cynnig y cyfle mwyaf ar gyfer y categorïau cynnyrch lle mae gan Gymru allu cyflenwi e.e. cynnyrch llaeth, cig, diodydd a chynnyrch becws. Mae’r Cynllun Gweithredu hefyd yn nodi bod Cymru wedi ennill enw da am gynhyrchion sydd â Dynodiadau Daearyddol, sy’n cynyddu cynaliadwyedd y farchnad, yn enwedig yn Ewrop, ac yn gwella enw da Cymru am fwyd o ansawdd.²⁷ Trafodir Dynodiadau Daearyddol yn fanylach ym Mhennod 3.

37. Mae Llywodraeth Cymru yn cefnogi allforwyr drwy raglen Datblygu Masnach Ryngwladol sy’n cynorthwyo cynhyrchwyr i ddatblygu busnes allforio newydd ac yn cefnogi twf busnes allforio presennol.

Tystiolaeth gan y rhanddeiliaid

38. Soniodd Dr Bowen am adborth “hynod gadarnhaol” gan gynhyrchwyr bwyd ar rôl Llywodraeth Cymru wrth hyrwyddo cynhyrchion Cymreig, yn enwedig yn rhyngwladol. Dywedodd wrth y Pwyllgor:

“...the majority of Welsh food producers look more to the Welsh Government for support in promoting their products internationally. Although support is available on a UK level, the Welsh Government is seen as the main driver in promoting Welsh food products...The majority

²⁵ Cofnod y Trafodion, paragraff 208, 6 Mawrth 2019

²⁶ [Tystiolaeth ysgrifenedig, Cymdeithas Enwau Bwyd Gwarchoddedig y DU](#)

²⁷

<https://businesswales.gov.wales/foodanddrink/sites/foodanddrink/files/documents/Tuag%20at%20Dwf%20Cynaliadwy%20-%20Cynllun%20Gweithredu%20ar%20Cyfer%20y%20Diwydiant%20Bwyd%20a%20Diod%202014-2020%20%28T%29.pdf>

of Welsh food companies take a more reactive approach to internationalisation, as this tends to occur through approaches from the Welsh Government to attend events, rather than companies themselves seeking to develop international opportunities.”²⁸

39. Eglurodd Gwyn Howells fod Llywodraeth Cymru yn darparu cefnogaeth ar gyfer mynychu ffeiriau masnach, ar genadaethau mewnol ac mewn digwyddiadau ledled y byd.²⁹ Ar hyn o bryd, mae Llywodraeth Cymru yn ariannu Rhaglen Datblygu Allforio Ehangach (y Rhaglen) tair blynedd gwerth £1.5 miliwn i gefnogi'r diwydiant cig coch yn ystod y cyfnod cyn Brexit. Mae'r Rhaglen yn canolbwyntio ar gadw a thyfu marchnadoedd Ewropeaidd a thyfu busnes newydd y tu allan i'r UE.

2. 3. Twristiaeth bwyd

40. Prif nod *Cynllun Gweithredu Twristiaeth Bwyd Llywodraeth Cymru* (205-2020) yw codi proffil Cymru fel cyrchfan twristiaeth bwyd o safon uchel. Ei nod yw gwneud hyn drwy wella ymwybyddiaeth ymwelwyr a mynediad at fwyd a diod yng Nghymru, drwy annog busnesau lletygarwch i ddod o hyd i gynhyrchion Cymreig, a gwella sgiliau o ran paratoi a dod o hyd i fwyd a diod lleol.

41. Wrth wneud sylwadau ar gynigion ar gyfer y strategaeth newydd ar gyfer bwyd a diod, mae Llywodraeth Cymru yn nodi fel a ganlyn:

“Mae yna gyfleoedd i hyrwyddo'r cynnig bwyd o ansawdd yng Nghymru fel rhan annatod o ddatblygu twristiaeth, gwella'r cynnig bwyd o Gymru mewn atyniadau a chyrchfannau ymwelwyr, a chysylltu â thwristiaeth er mwyn treiddio ymhellach i'r sector gwasanaeth bwyd.”³⁰

Tystiolaeth gan y rhanddeiliaid

42. Roedd consensws cyffredinol bod cynnydd wedi'i wneud o ran datblygu cynnig twristiaeth bwyd Cymru yn y blynyddoedd diwethaf, gyda hunaniaeth bwyd Cymru yn gyfrannwr allweddol. Fodd bynnag, mae tystiolaeth gan y rhanddeiliaid yn awgrymu bod lle i wneud rhagor o waith. Credai rhai o'r

²⁸ Tystiolaeth ysgrifenedig, Dr Robert Bowen

²⁹ Tystiolaeth ysgrifenedig, Hybu Cig Cymru

³⁰

<https://businesswales.gov.wales/foodanddrink/sites/foodanddrink/files/Canlyniad%20ymarfer%20ymgysylltu%20cychwynnol.pdf>

rhanddeiliaid y gallai statws newydd y “Sector Sylfaen” yn y diwydiant bwyd a diod, a’r diwydiant twristiaeth, ddarparu cyfleoedd pellach i ddatblygu.

43. Pwysleisiodd Dr Bowen y “cysylltiad naturiol” rhwng bwyd a thwristiaeth, a all fod o fudd i’r ddwy ochr. Dywedodd fod yr angen i’r ddau sector weithio gyda’i gilydd yn bwysig iawn.³¹

44. Wrth wneud sylwadau ar sut y mae bwyd a diod wedi’i leoli o fewn cynnig twristiaeth cyffredinol Cymru, dywedodd Simon Wright:

“...it’s definitely taken a step forward in recent years; we’ve sort of acknowledged the importance of food in the visitor experience. There’s been a developed understanding of what that means in Wales, and also what’s distinct about our offering...”³²

45. Eglurodd Dr Bowen fod cynnyrch o Gymru sydd â statws Dynodiad Daearyddol yr UE yn rhoi cyfle unigryw i gysylltu bwyd a thwristiaeth.³³ Gwnaed pwynt tebyg gan David Chapman (UK Hospitality Cymru) a ddywedodd fod Dynodiad Daearyddol Gwarchoddedig Cig Oen Cymru yn arwain y cynnig bwyd o Gymru, sy’n cyfrannu’n fawr at yr hunaniaeth bwyd o Gymru. Mae hyn, yn ei dro, yn welliant hanfodol i brofiad ymwelwyr a’r ymdeimlad o le i ymwelwyr.³⁴

46. Dywedodd Dr O’Callaghan wrth y Pwyllgor fod nifer o ardaloedd ledled y DU wedi ailgreu eu hunain fel cyrchfannau i dwristiaid o ganlyniad i’w cynhyrchion bwyd unigryw, y mae llawer ohonynt wedi’u diogelu gan gynlluniau Dynodiadau Daearyddol yr UE. Er enghraifft, Melton Mowbray (Pei Porc Melton Mowbray a Chaws Stilton) a Dyffrynnoedd Swydd Efrog (Wensleydale Creamery a’r Black Sheep Brewery). Credai fod lle i Lywodraeth Cymru gefnogi datblygiad, ymhlith pethau eraill, cyrchfannau twristiaid a gwyliau bwyd yng Nghymru, yn enwedig o amgylch cynhyrchion Cymreig sydd â statws Dynodiad Daearyddol.³⁵

47. Eglurodd Alison Lea-Wilson (Halen Môn) fod Halen Môn wedi agor atyniad ymwelwyr yn ddiweddar, gan gynnwys teithiau o’r ardal gynhyrchu, a ddenodd tua 15,000 o ymwelwyr yn y flwyddyn flaenorol.

³¹ Tystiolaeth ysgrifenedig, Dr Robert Bowen

³² Cofnod y Trafodion, paragraff 121, 20 Mawrth 2019

³³ Tystiolaeth ysgrifenedig, Dr Robert Bowen

³⁴ Tystiolaeth ysgrifenedig, UK Hospitality Cymru

³⁵ Tystiolaeth ysgrifenedig, Cymdeithas Enwau Bwyd Gwarchoddedig y DU

48. Nododd Dr Bowen *Gwerth Cymreictod: Awydd y Siopwr am Gynnyrch Cymreig 2013*, a ddangosodd fod llai na hanner yr ymatebwyr yn ymwneud â chyflenwi'r sector twristiaeth, a dywedodd:

“Through collaboration there is scope for a unique Welsh offering to be provided in the tourism sector in Wales, with Welsh food at the heart of this, such as including Welsh food products on restaurant menus or offerings in hotel rooms.”³⁶

49. Dywedodd Andrew Campbell (Cynghrair Twristiaeth Cymru) wrth y Pwyllgor y gellid gwneud gwelliannau yn y gadwyn gyflenwi ar gyfer cynnyrch o Gymru, gyda chymorth ychwanegol i fusnesau ddod o hyd i gynnyrch lleol.³⁷

50. Dywedodd Simon Wright wrth y Pwyllgor fod ei fusnes wedi colli cyflenwyr lleol allweddol yn ddiweddar ac wedi cael trafferth dod o hyd i rai newydd.³⁸

51. Eglurodd David Evans (Bwyty Dylan's) fod Dylan's yn brynwr mawr o gynnyrch lleol gyda 67 y cant o bryniannau yn 2017 wedi'u gwneud yng Nghymru. Eglurodd hefyd fod defnyddio cynnyrch lleol yn her wrth dyfu busnes gan na fydd gan gyflenwyr lleol bach o bosibl y capasiti i gyflenwi cysondeb, cyfaint neu ystod y cynhyrchion sydd eu hangen. Roedd hyn yn fwy o broblem i gyflenwyr llyisiau. Fodd bynnag, mynegodd barodrydd i weithio gyda thyfwyr lleol i geisio mynd i'r afael â'r broblem hon.

52. Soniodd Simon Wright a David Evans eu bod yn cael trafferth dod o hyd i fwyd môr o Gymru, yn enwedig pysgod. Awgrymodd Simon Wright fod angen gwneud mwy i fynd i'r afael â hyn ac i wella enw da Cymru fel cynhyrchydd bwyd môr.³⁹

53. Cydnabu David Chapman hefyd yr angen am welliannau yn y gadwyn gyflenwi. Dywedodd:

“For our [hospitality] industry in Wales to be able to provide a consistent product, we need to have a good, solid supply all through the year, and we need to have it at a price that's sensitive to the customers.”⁴⁰

³⁶ *Tystiolaeth ysgrifenedig, Dr Robert Bowen*

³⁷ Cofnod y Trafodion, paragraff 127, 20 Mawrth 2019

³⁸ Cofnod y Trafodion, paragraff 139, 20 Mawrth 2019

³⁹ Cofnod y Trafodion, paragraffau 209-210, 20 Mawrth 2019

⁴⁰ Cofnod y Trafodion, paragraff 131, 20 Mawrth 2019

54. Awgrymodd Simon Wright fod cyfleoedd i gynnyrch o Gymru gael eu cynnig mewn cadwyni gwestai a bwytai cenedlaethol a rhyngwladol yn gyfyngedig oherwydd arferion prynu canolog a maint yr elw.⁴¹

55. Yn fwy cyffredinol, eglurodd David Chapman fod UK Hospitality Cymru yn gweithio i wella cydweithrediad rhwng y diwydiant lletygarwch a'r diwydiant bwyd a diod. Credai y gellid gwneud mwy i annog masnach ar y cyd a chysylltu'r diwydiannau a bod statws y Sector Sylfaen yn darparu cyfleoedd yn hyn o beth.⁴²

56. Cyfeiriodd Alison Lea-Wilson at waith Grŵp Bwyd Môn, sy'n cynnwys tyfwyr, cynhyrchwyr, masnachwyr a bwytai yn cydweithio i hyrwyddo bwyd a diod a gynhyrchir ar Ynys Môn ac i gryfhau ei enw da fel cyrchfan bwyd. Credai mai "clystyrau bwyd" fel hyn yw'r ffordd ymlaen, fodd bynnag, prin yw'r gefnogaeth sydd ar gael.

Casgliad 7. Mae gan yr "hunaniaeth Gymreig" rôl bwysig i'w chwarae wrth hyrwyddo a marchnata cynhyrchion bwyd a diod o Gymru ar lefel ddomestig a rhyngwladol. Gellir ei defnyddio i werthu stori Cymru, ac mae'n galluogi cynhyrchwyr i wahaniaethu rhwng eu cynhyrchion a rhai eu cystadleuwyr. Felly, rhaid i'r hunaniaeth Gymreig fod yn rhan ganolog o ddull Llywodraeth Cymru o hyrwyddo Cymru fel cenedl fwyd.

Casgliad 8. Rhaid i Lywodraeth Cymru ddatblygu "hunaniaeth Gymreig" gliriach yn seiliedig ar werthoedd cryf sy'n atseinio ar draws sawl marchnad. Rhaid iddi adlewyrchu'r amrywiaeth o gynnyrch sy'n dod o Gymru, gan gynnwys bwyd môr. Rhaid iddi fod yn seiliedig ar ddealltwriaeth gadarn o anghenion cwsmeriaid mewn marchnadoedd presennol a newydd, a rhaid ei datblygu ar y cyd â chynrychiolwyr ar draws pob sector o'r diwydiant bwyd a diod.

Casgliad 9. Mae potensial sylweddol heb ei ddefnyddio mewn rhai marchnadoedd allforio rhyngwladol, fel y gwelir yn adroddiad y Bwrdd Datblygu Amaethyddiaeth a Garddwriaeth, *International Consumer Buying Behaviour*. Rhaid i Lywodraeth Cymru weithio gyda'r diwydiant a, lle bo'n briodol, gydag Adrannau perthnasol Llywodraeth y DU, i fanteisio i'r eithaf ar y potensial hwn ar ôl Brexit.

Casgliad 10. Dylai Llywodraeth Cymru ystyried ffyrdd o annog pobl Cymru i brynu cynnyrch lleol. Mae enghreifftiau yn rhyngwladol o ymyriadau a fyddai'n arwain yn anuniongyrchol at gynnydd yn y defnydd o gynnyrch lleol. Er

⁴¹ Cofnod y Trafodion, paragraff 138, 20 Mawrth 2019

⁴² Tystiolaeth ysgrifenedig. UK Hospitality Cymru

enghraifft, yn yr Eidal, rhaid i fwyd wedi'i rewi a gaiff ei weini mewn bwytai nodi hynny'n glir ar fwydlenni.

Casgliad 11. Gall hunaniaeth y DU fod yn fodd o gael mynediad at farchnadoedd byd-eang. Gellid ei defnyddio lle bo'n briodol a lle mae manteision clir i gynhyrchwyr o Gymru.

Casgliad 12. Rhaid i strategaeth newydd Llywodraeth Cymru ar gyfer bwyd a diod wneud cysylltiadau clir â'i strategaeth ar gyfer twristiaeth yng Nghymru. Rhaid i Lywodraeth Cymru nodi cyfleoedd i sicrhau y gellir defnyddio cynnyrch o safon o Gymru, yn arbennig Dynodiadau Daearyddol, i hyrwyddo Cymru fel lleoliad bwyd.

Casgliad 13. Dylai Llywodraeth Cymru gomisiynu a chyhoeddi dadansoddiad annibynnol o effeithiolrwydd ei Chynllun Gweithredu ar Fwyd a Thwristiaeth. Dylid cwblhau'r gwaith hwn o fewn y 12 mis nesaf a dylid ei ddefnyddio i lywio unrhyw gynllun olynol.

Astudiaeth achos 2 – Bwyty Dylan’s

Yn ystod ei ymchwiliad, ymwelodd y Pwyllgor â Bwyty Dylan’s ym Mhorthaethwy a chwrdd â David Evans, Cyfarwyddwr y cwmni.

Sefydlwyd Dylan’s yn 2012 ac, ar adeg paratoi’r adroddiad hwn, roedd ganddo fwytai ym Mhorthaethwy, Criccieth a Llandudno.

Mae tarddiad bwyd yn bwysig i Dylan’s. Mae’n defnyddio cyflenwyr lleol a rhanbarthol ledled gogledd Cymru, gan gynnwys y cigydd, Edwards of Conwy; Menai Oysters and Mussels; a gwinoedd Gwinllan a Pant Du. Yn 2017, death 67 y cant o’i bryniannau o gyflenwyr yng ngogledd Cymru.

Fodd bynnag, mae sicrhau bod bwyd a geir yn lleol wrth wraidd ei gynnig yn creu heriau. Nid oes gan lawer o gyflenwyr lleol bach y capasiti i gyflenwi’r cysondeb, y niferoedd na’r amrywiaeth o gynhyrchion sydd eu hangen i wasanaethu tri bwyty prysur drwy gydol y flwyddyn. Dywedodd David Evans fod dod o hyd i fwyd môr lleol yn arbennig o heriol.

Mae Dylan’s yn gyflogwr rhanbarthol pwysig ac yn cyflogi 230 o staff yn ystod cyfnod prysur yr haf. Mae’r cwmni yn gosod gwerth ar ddatblygu ei staff ac mae wedi sefydlu cynllun prentisiaeth. Mae 170 o’i staff wedi cael budd o’i Raglen Datblygu a Hyfforddi Staff.

Yn ystod ein hymweliad, gwnaethom gwrdd â staff a oedd wedi cael budd o’r mentrau hyn ac sydd wedi datblygu o fewn y cwmni.

3. Enwau bwydydd gwarchoddedig (Dynodiadau Daearyddol)

57. Diben cynllun enwau bwydyddgwarchoddedig yr Undeb Ewropeaidd yw gwarchod bwydydd neu ddiodydd rhanbarthol a thraddodiadol cofrestredig ledled yr UE, o dan y gyfraith, rhag cael eu hefelychu. Gelwir enwau bwyd gwarchoddedig yn aml yn “Ddynodiadau Daearyddol”.

58. Nod cynllun yr UE yw sicrhau elw teg i ffermwyr a chynhyrchwyr am rinweddau a nodweddion cynnyrch penodol, gan alluogi defnyddwyr i wneud dewisiadau prynu gwybodus.

59. Cyfeiriodd nifer o’r rhanddeiliaid at enw da cynyddol Cymru ar gyfer cynhyrchion â Dynodiadau Daearyddol, gydag adroddiadau cadarnhaol o rôl Llywodraeth Cymru wrth annog a chefnogi cofrestriad gyda chynllun yr UE. Ar hyn o bryd mae 16 o gynhyrchion Cymreig wedi’u cofrestru o dan gynllun yr UE, gan gynnwys cig oen Cymru, cig eidion Cymru, Halen Môn a Chaws Traddodiadol Caerffili.

3. 1. Cynlluniau Dynodiadau Daearyddol newydd y DU

60. Ar adeg ysgrifennu’r adroddiad hwn, nid yw’r telerau y bydd y DU yn ymadael â’r UE wedi’u cytuno eto. Os bydd Cytundeb Ymadael rhwng y DU a’r UE, bydd Dynodiadau Daearyddol y DU yn parhau i gael eu diogelu yn y DU a’r UE yn ystod y cyfnod pontio, ac i’r gwrthwyneb.

61. Os na cheir Cytundeb, bydd cynllun yr UE yn cael ei ddargadw yng nghyfraith y DU. Bydd gwelliannau i’r gyfraith hon yn sicrhau bod cynlluniau Dynodiadau Daearyddol y DU ar waith o’r diwrnod ymadael ymlaen. Bydd cynlluniau Dynodiadau Daearyddol newydd y DU yn dod â diogelwch awtomatig i gynhyrchion y DU sydd eisoes wedi’u cofrestru o dan gynllun yr UE. Ni wyddys eto beth yw goblygiadau “dim cytundeb” ar gyfer Dynodiadau Daearyddol y DU o fewn yr UE. Fodd bynnag, mae canllawiau a gyhoeddwyd gan Lywodraeth y DU, *Protecting food and drink names if there’s no Brexit deal*, (Chwefror 2019) yn nodi fel a ganlyn:

“The UK government anticipates that the EU GI schemes will continue to protect all current UK GIs after the UK leaves the EU in a deal or no deal scenario. But, if the UK leaves with no deal, it’s possible that the EU may not continue to protect UK GI products.”

62. Ymgynghorodd Llywodraeth y DU ar gynigion ar gyfer cynlluniau Dynodiadau Daearyddol newydd y DU ar ddiwedd 2018. Roedd y cynigion yn cynnwys creu a defnyddio logos Dynodiadau Daearyddol newydd y DU a chyflwyno darpariaethau apeliadau diwygiedig.

63. Nid yw rôl Llywodraeth Cymru yng nghynlluniau Dynodiadau Daearyddol newydd y DU yn glir eto. Cadarnhaodd Llywodraeth Cymru yn flaenorol ei bod wedi gweithio gyda Llywodraeth y DU i ddatblygu'r ymgynghoriad. Fodd bynnag, mae gwahaniaeth barn rhwng Llywodraeth Cymru a Llywodraeth y DU o ran cymhwysedd mewn perthynas â chynlluniau Dynodiadau Daearyddol.⁴³ Er bod Llywodraeth y DU o'r farn bod y materion hyn yn cael eu cadw'n ôl, cred Llywodraeth Cymru eu bod o fewn cymhwysedd datganoledig y Cynulliad.

64. Mae Llywodraeth y DU wedi darparu sicrwydd ysgrifenedig y bydd y Gweinyddiaethau Datganoledig yn ymwneud â gweithredu cynlluniau Dynodiadau Daearyddol. At hynny, mae Llywodraeth Cymru wedi ymrwmo i weithio i sicrhau bod Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth yn darparu bod gan Weinidogion Cymru rôl ystyrlon yn y broses o weinyddu'r cynllun.⁴⁴

Tystiolaeth gan y rhanddeiliaid

65. Dywedodd Dr O'Callaghan fod Llywodraeth y DU yn amcangyfrif bod Dynodiadau Daearyddol y DU yn werth tua £5 biliwn y flwyddyn ac yn cyfrif am 25 y cant o holl allforion bwyd a diod y DU yn ôl gwerth. Amlygodd werth economaidd Enwau Bwyd Gwarchoddedig:

“Many producers charge a premium for a PFN product and customers are prepared to pay that premium for a product with provenance and heritage. One estimate [by the European Commission] is that PFN status increases the value of a product by 2.23 times.”⁴⁵

66. Gwnaed pwyntiau tebyg gan Gwyn Howells, a eglurodd fod statws y Dynodiadau yn allweddol i gynnig cig oen a chig eidion Cymru. Eglurodd hefyd:

“PGI status provides a guarantee of provenance and a mark of quality; re-enforcing consumer confidence in the product and allowing it to be

⁴³ [Datganiad ysgrifenedig gan Lywodraeth Cymru: Rheoliadau Bwyd a Ffermio \(Diwygio\) \(Ymadael â'r UE\) 2019, 19 Chwefror 2019](#)

⁴⁴ www.assembly.wales/laid%20documents/ws-ld12189/ws-ld12189-w.pdf

⁴⁵ [Tystiolaeth ysgrifenedig, Cymdeithas Enwau Bwyd Gwarchoddedig y DU](#)

sold at a premium. Effective premiumisation maximises returns to the whole supply chain.”⁴⁶

67. Clywodd y Pwyllgor dystiolaeth i awgrymu bod statws Dynodiadau Daearyddol yn arf marchnata gwerthfawr. Amlinellodd Dr O’Callaghan fod statws Dynodiadau Daearyddol yn agor drysau ar unwaith ac yn caniatáu lleihau sgysiau cychwynol gan fod gwerth y cynnyrch eisoes wedi’i gadarnhau.⁴⁷ Gwnaeth Gwyn Howells bwynt tebyg:

“It’s not only in Europe and the UK that [EU GI status] gives us traction in the marketplace, but also worldwide—people know about Welsh lamb in all corners of the earth, because of the work that has been done on the back of this very exclusive club.”⁴⁸

68. Mynegodd y rhanddeiliaid bryder, neu galwyd am eglurder, ynghylch statws Dynodiadau Daearyddol presennol y DU ar ôl Brexit, yn arbennig, a fydd Dynodiadau presennol y DU yn parhau i gael eu gwarchod yn yr UE.

69. Dywedodd Gwyn Howells:

“...unless the status, or a UK protected food name status which is recognised worldwide as being equivalent, can be maintained post Brexit, the ability to attract a premium for Welsh red meat could be limited.”⁴⁹

70. Dywedodd wrth y Pwyllgor fod amddiffyniad di-dor ar unwaith i frandiau Cig Oen Cymru a Chig Eidion Cymru ar ôl Brexit yn hanfodol i’r diwydiant cig coch.⁵⁰

71. Credai Dr Bowen fod cynnal cynllun presennol yr UE yn hanfodol er mwyn sicrhau bod y llwyddiannau diweddar yn y diwydiant bwyd a diod yng Nghymru yn cael eu cynnal. Mynegodd bryder y gallai colli enwau bwyd a warchodir yng Nghymru effeithio ar enw da Cymru am fwyd mewn marchnadoedd rhyngwladol, a allai yn ei dro effeithio ar allforion.⁵¹

72. Nododd y rhanddeiliaid y camau y mae Llywodraeth y DU yn eu cymryd i sicrhau y bydd cynlluniau Dynodiadau Daearyddol newydd y DU ar waith ar

⁴⁶ Tystiolaeth ysgrifenedig, Hybu Cig Cymru

⁴⁷ Tystiolaeth ysgrifenedig, Cymdeithas Enwau Bwyd Gwarchoddedig y DU

⁴⁸ Cofnod y Trafodion, paragraff 44, 6 Mawrth 2019

⁴⁹ Tystiolaeth ysgrifenedig, Hybu Cig Cymru

⁵⁰ Tystiolaeth ysgrifenedig, Hybu Cig Cymru

⁵¹ Tystiolaeth ysgrifenedig, Dr Robert Bowen

ddiwrnod ymadael â'r UE, ond cwestiynwyd effeithiolrwydd posibl y cynlluniau hyn.

73. Cydnabu Dr O'Callaghan y bydd y cynlluniau newydd yn ddefnyddiol i ddiogelu Dynodiadau Daearyddol y DU yn y DU. Fodd bynnag, honnodd na fydd yn rhoi unrhyw amddiffyniad i gynhyrchion y DU a werthir yng ngwledydd yr UE.⁵² Credai ei fod yn naif i Lywodraeth y DU awgrymu y bydd yr UE yn parhau i amddiffyn Dynodiadau Daearyddol presennol y DU ar ôl Brexit, oni wneir trefniadau cyfatebol.⁵³

74. Mynegodd nifer o'r rhanddeiliaid bryder ynghylch y diffyg cydnabyddiaeth brand y byddai gan gynllun Dynodiadau Daearyddol newydd y DU. Dywedodd Gwyn Howells wrth y Pwyllgor y bydd ymwybyddiaeth brand o unrhyw gynllun Enwau Bwyd Gwarchoddedig yn y DU, yn y dyfodol, yn "sero", a bydd hynny'n "her".⁵⁴ Mynegwyd barn debyg gan Dr Bowen a bwysleisiodd hefyd y byddai cydnabyddiaeth brand yn cymryd amser sylweddol i'w ddatblygu.⁵⁵

75. Pwysleisiodd Dr O'Callaghan a Gwyn Howells y bydd dewis logo priodol ar gyfer Dynodiadau Daearyddol y DU yn bwysig. Mynegwyd pryder ganddynt ynghylch yr effaith bosibl ar gynnyrch o Gymru sydd â statws Dynodiad Daearyddol o ddefnyddio baner yr Undeb. Roedd hyn yn bennaf oherwydd enw gwael neu gydnabyddiaeth isel o fwydydd wedi'u brandio ym Mhrydain mewn rhai marchnadoedd tramor, fel y gwelir yn adroddiad y Bwrdd Datblygu Amaethyddiaeth a Garddwriaeth.

76. Rhybuddiodd Gwyn Howells yn erbyn unrhyw newid sylweddol yn y logos Enwau Bwyd Gwarchoddedig.⁵⁶ Nododd hefyd:

"...we need the scheme...to have a protected food name feel that is similar to the current European scheme, and not for it to be assumed into just a 'This is a UK badge', which then leaves us vulnerable in terms of us telling the Welsh story being diluted."⁵⁷

77. Dywedodd Alison Lea-Wilson nad oedd am gael logos ar wahân ar eu cynnyrch ar gyfer marchnadoedd y DU a'r UE ar ôl Brexit, a fydd yn ychwanegu

⁵² [Tystiolaeth ysgrifenedig, Cymdeithas Enwau Bwyd Gwarchoddedig y DU](#)

⁵³ [Tystiolaeth ysgrifenedig, Cymdeithas Enwau Bwyd Gwarchoddedig y DU](#)

⁵⁴ Cofnod y Trafodion, paragraff 44, 20 Mawrth 2019

⁵⁵ [Tystiolaeth ysgrifenedig, Dr Robert Bowen](#)

⁵⁶ [Tystiolaeth ysgrifenedig, Hybu Cig Cymru](#)

⁵⁷ Cofnod y Trafodion, paragraff 46, 6 Mawrth 2019

cost. Cred y bydd yr adnabyddiaeth o logo newydd y DU yn isel ar y dechrau ac y byddai angen ei hyrwyddo yn sylweddol.

78. Ar adeg casglu tystiolaeth, nid oedd y rheoliadau i ddiwygio cyfraith yr UE ar ôl y diwrnod ymadael i sefydlu cynlluniau Dynodiadau Daearyddol newydd y DU wedi'u gwneud. Fodd bynnag, ers hynny mae Llywodraeth y DU wedi gwneud y rheoliadau hyn ac wedi nodi ei bwriad i gyflwyno rheoliadau pellach i weithredu logos newydd y DU i'w defnyddio ar ôl iddynt gael eu datblygu.

79. Mynegodd Dr O'Callaghan bryder difrifol ynghylch goblygiadau unrhyw gytundebau masnach rhwng y DU a'r Unol Daleithiau yn y dyfodol i Ddynodiadau Daearyddol. Eglurodd:

“The US Government has always been hostile to PFNs. It took the EU to the World Trade Court over the EU scheme and arguing that the scheme was anti-competitive...It is unlikely given the UK Government's desire for a post-Brexit trade deal with the US, that any protection will be afforded to UK PFNs.”⁵⁸

80. Dywedodd Dr O'Callaghan hefyd nad yw'r Cytundeb Economaidd a Masnach Cynhwysfawr rhwng yr UE a Chanada yn rhoi amddiffyniad i Ddynodiadau Daearyddol y DU. Eglurodd nad oedd Llywodraeth y DU wedi ymgynghori ar unrhyw Ddynodiadau Daearyddol yn y DU, nac wedi'u cyflwyno, i'w cynnwys gyda'r canlyniad bod CETA yn amddiffyn llawer o Ddynodiadau Daearyddol yr UE ond dim un o'r DU.⁵⁹

Casgliad 14. Mae llawer o fanteision yn deillio o Ddynodiadau Daearyddol, gan gynnwys eu gwerth economaidd ac fel arf marchnata. O gofio hyn, mae dyfodol Dynodiadau'r DU yn dilyn Brexit, yn ddealladwy, yn bryder i gynhyrchwyr a chynrychiolwyr y diwydiant. Er bod y cynigion ar gyfer cynlluniau Dynodiadau Daearyddol newydd y DU wedi mynd i'r afael rhywfaint â'r pryder hwn, mae amheuaeth o hyd ynghylch statws y cynlluniau hyn ar y llwyfan rhyngwladol. Nid yw'n hysbys eto a fydd y cynlluniau newydd yr un mor ddeniadol i gynhyrchwyr a defnyddwyr â chynllun presennol yr UE.

Casgliad 15. Rhaid i Lywodraeth Cymru sicrhau bod buddiannau cynhyrchwyr bwyd yng Nghymru yn cael eu cynrychioli mewn trafodaethau â Llywodraeth y DU wrth i gynlluniau Dynodiadau Daearyddol newydd y DU gael eu datblygu. Rydym yn disgwyl i Lywodraeth Cymru chwarae rôl ystyrlon nid yn unig wrth

⁵⁸ [Tystiolaeth ysgrifenedig, Cymdeithas Enwau Bwyd Gwarchoddedig y DU](#)

⁵⁹ [Tystiolaeth ysgrifenedig, Cymdeithas Enwau Bwyd Gwarchoddedig y DU](#)

weinyddu'r cynlluniau newydd, ond wrth eu datblygu. Mae hyn yn cynnwys dylunio logo Dynodiadau Daearyddol newydd y DU.

Casgliad 16. Bydd sefydlu cydnabyddiaeth brand o dan gynlluniau Dynodiadau Daearyddol newydd y DU yn heriol. Bydd yn cymryd amser a bydd angen buddsoddiad. Bydd strategaeth gyfathrebu effeithiol ar gyfer lansio cynlluniau Dynodiadau Daearyddol newydd y DU yn hanfodol i hyrwyddo ymwybyddiaeth ymhlith cynhyrchwyr a defnyddwyr ar lefel ddomestig a rhyngwladol. Rhaid i Lywodraeth Cymru egluro pa rôl y bydd yn ei chwarae wrth ddatblygu a chyflwyno'r strategaeth hon.

Casgliad 17. Mae diffyg eglurder ynghylch p'un a fydd cynhyrchion Dynodiad Daearyddol y DU yn parhau i gael eu diogelu yn yr UE ar ôl Brexit. Mae'r Pwyllgor yn pryderu ynghylch yr effaith ar gynhyrchwyr, ac ar y diwydiant yn ehangach, os na chaiff amddiffyniad ei gynnal. Dylai Llywodraeth Cymru:

- ddarparu manylion am unrhyw waith a wnaed i asesu'r effaith ar gynhyrchwyr os na chaiff amddiffyniad o fewn yr UE ei gynnal, a'r camau y mae'n eu cymryd i liniaru hyn, a
- chyflwyno sylwadau i Lywodraeth y DU gyda'r bwriad o sicrhau bod cynhyrchion Dynodiad Daearyddol y DU yn parhau i gael eu gwarchod yn yr UE ar ôl Brexit.

Casgliad 18. Mae Llywodraeth Cymru wedi bod yn allweddol yn cynyddu nifer y Dynodiadau Daearyddol yng Nghymru yn y blynyddoedd diwethaf. Dylai barhau i adeiladu ar y llwyddiant hwn. Yn sgil sefydlu cynlluniau Dynodiadau Daearyddol newydd y DU, dylai Llywodraeth Cymru nodi ei safbwynt ar gynyddu nifer y Dynodiadau yng Nghymru ar ôl Brexit, a'r ymagwedd tuag at hyn. Wrth wneud hynny, dylai egluro pa gymorth fydd ar gael i gynhyrchwyr sy'n dymuno cofrestru gyda chynlluniau newydd y DU a chyda chynllun yr UE.

Casgliad 19. Bydd Llywodraeth y DU yn ceisio trafod trefniadau masnach gyda'r Unol Daleithiau ar ôl Brexit. O ystyried gwrthnawsedd hanesyddol yr Unol Daleithiau tuag at Ddynodiadau Daearyddol, dylai Llywodraeth Cymru geisio ymrwymiad gan Lywodraeth y DU y bydd diogelu'r Dynodiadau yn flaenoriaeth mewn unrhyw drafodaethau o'r fath.

Astudiaeth achos 3 - Bangor Mussels

Yn ystod ei ymchwiliad, ymwelodd y Pwyllgor â Bangor Mussels a'i Gyfarwyddwr, James Wilson.

Mae Bangor Mussels yn gymdeithas o gwmnïau sy'n ffermio cregyn gleision yn Afon Menai. Caiff hadau cregyn gleision eu casglu, eu hailblannu a'u cynaeafu tair blynedd yn ddiweddarach.

Mae Bangor Mussels yn cynhyrchu 8,000 o dunelli y flwyddyn yn rheolaidd, ac mae hyn yn cyfrif am 30 y cant o'r cregyn gleision a gynhyrchir yn y DU. O ystyried y galw cyfyngedig am gregyn gleision yn y DU, caiff 90 y cant ohonynt eu hallforio, drwy sianeli dosbarthu "mewn union bryd" i'r Iseldiroedd, Gwlad Belg a Ffrainc.

Mae Bangor Mussels wedi symud i gam uwch gyda chynlluniau i ddatblygu safle prosesu ger y cei, gyda'r bwriad o werthu cregyn gleision i'r farchnad ddomestig. Mae oedi mewn perthynas â'r prosiect hwn ar hyn o bryd oherwydd ansicrwydd ynghylch adnewyddu ei hawliau unigryw i gynaeafu cregyn gleision o ardal benodol o Afon Menai. Mae James yn deall bod yr oedi oherwydd adolygiad gan Lywodraeth Cymru o sut y caiff y ddeddfwriaeth berthnasol ei dehongli.

Roedd James yn pryderu ynghylch ymagwedd Llywodraeth Cymru tuag at adnoddau a pholisi o ran pysgota masnachol. Awgrymodd y dylai Llywodraeth Cymru:

- Reoli stoc mewn ffordd fwy cynaliadwy a strategol;
- Bod yn well am weithredu ei strategaethau a'i chynlluniau ei hun; a
- Rhoi'r gorau i ystyried y gwaith o reoli pysgodfeydd fel "problem amgylcheddol".

Cred James y byddai brand Cymreig yn berffaith ar gyfer bwyd môr gan y byddai'n gyson â nodau *Deddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016* a *Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015*.

4. Prosesu bwyd

81. Mae Cynllun Gweithredu ar Fwyd a Diod 2014-2020 Llywodraeth Cymru (y Cynllun Gweithredu) yn cynnwys y camau a ganlyn:

“Sicrhau bod [Rhaglen Datblygu Gwledig] 2014–2020 yn darparu cynlluniau cymorth busnes a phrosesu sy’n briodol i’r sector bwyd. Bydd hyn yn gofyn am gydweithio agos ac integreiddio ar draws holl adrannau’r llywodraeth.

Sicrhau bod digon o eiddo ar gael yn hwylus ar gyfer prosesu cynhyrchion cynradd a gweithgynhyrchu bwyd yn gyffredinol. Dylai’r ddarpariaeth gynnwys eiddo ar gyfer unedau deori/cychwynnol, ehangu a mewnfuddsoddi a fydd yn cefnogi busnesau bwyd newydd ac sy’n datblygu.”⁶⁰

82. Mae’r Cynllun Gweithredu yn amlinellu’r cymorth ariannol sydd ar gael i’r sector prosesu bwyd, sy’n cynnwys:

“Cyllid Ewropeaidd sy’n cael ei gynllunio drwy’r Rhaglen Datblygu Gwledig 2014–2020 yn cyfrannu at brosiectau cyfalaf o dan gynlluniau sefydledig fel y Cynllun Grant Datblygu Marchnata a Phrosesu, a’r Cynllun Arbedion yn y Gadwyn Gyflenwi sy’n darparu cymorth ariannol ar gyfer prosiectau cydweithredol a fydd yn datblygu cynhyrchion, prosesau a thechnolegau newydd.”⁶¹

Tystiolaeth gan y rhanddeiliaid

83. Roedd cefnogaeth eang ymhlith y rhanddeiliaid i gynyddu capasiti prosesu yng Nghymru, gyda phwyslais arbennig ar ychwanegu gwerth at gynnyrch o Gymru. Roedd galwadau am fwy o fuddsoddiad mewn seilwaith lleol fel y gellir

⁶⁰

<https://businesswales.gov.wales/foodanddrink/sites/foodanddrink/files/documents/Tuag%20at%20Dwf%20Cynaliadwy%20-%20Cynllun%20Gweithredu%20ar%20Cyfer%20y%20Diwydiant%20Bwyd%20a%20Diod%202014-2020%20%28T%29.pdf>

⁶¹

<https://businesswales.gov.wales/foodanddrink/sites/foodanddrink/files/documents/Tuag%20at%20Dwf%20Cynaliadwy%20-%20Cynllun%20Gweithredu%20ar%20Cyfer%20y%20Diwydiant%20Bwyd%20a%20Diod%202014-2020%20%28T%29.pdf>

prosesu cynnyrch yn nes at y ffynhonnell, gan leihau milltiroedd bwyd a chadw'r budd economaidd mewn cymunedau lleol.

84. Cyfeiriodd yr Athro Marsden at gasgliadau adroddiad y Sefydliad Polisi Cyhoeddus i Gymru, *Food Policy as Public Policy: A Review of the Welsh Government's Food Strategy and Action Plan*, a amlygodd yr angen am fwy o bwyslais ar fuddsoddi yn y "canol coll" yn y gadwyn fwyd, h.y. y bylchau mewn seilwaith ffisegol a digidol sy'n parhau i ehangu milltiroedd bwyd a chreu tagfeydd mewn bwyd a fanwerthir. Amlygodd yr adroddiad hefyd yr angen i ddatblygu strategaeth glir ar gyfer datblygu busnesau canolfannau bwyd cydweithredol lleol a rhanbarthol ledled Cymru.

85. Cyfeiriodd yr Athro Marsden at ddirywiad a cholli seilweithiau bwyd a phwysleisiodd yr angen i fod yn llawer mwy rhagweithiol ynghylch datblygu cenhedlaeth newydd o brosesu bwyd.⁶² Dylai hyn gynnwys mathau newydd o gynhyrchion crefftwyd yn ogystal â bwyd môr. Eglurodd y byddai buddsoddi mewn seilwaith yn galluogi creu busnesau prosesu bwyd newydd, a fydd, yn hollbwysig, yn ychwanegu gwerth at gynnyrch o Gymru.⁶³

86. Wrth wneud sylwadau ar gyfuno cyfleusterau prosesu bwyd, dywedodd yr Athro Marsden:

"We have to be realistic that we've got this continuous process of economies of scale going on in the main conventional sectors – red meat, and particularly, dairy. The story has been that we've lost capacity and are continuing to lose capacities in Wales...I think we need to work ways of rebuilding infrastructure in Wales...We're going to be entering a period when more and more people are actually going to want localised or re-localised foods. They're not going to want the food miles attached to these distant centres."⁶⁴

87. Eglurodd, mewn sawl rhan o Ewrop, fod symudiad i ffwrdd o'r crynodiad o gyfleusterau prosesu mewn un neu ddau o nodau, a thuag at system fwy gwasgaredig.⁶⁵ Amlygodd yr angen yn benodol i feithrin capasiti a galwodd am y strategaeth newydd ar gyfer bwyd a diod i fynd i'r afael â hyn.⁶⁶

⁶² Cofnod y Trafodion, paragraff 249, 20 Mawrth 2019

⁶³ Cofnod y Trafodion, paragraff 249, 20 Mawrth 2019

⁶⁴ Cofnod y Trafodion, paragraff 261, 20 Mawrth 2019

⁶⁵ Cofnod y Trafodion, paragraff 264, 20 Mawrth 2019

⁶⁶ Cofnod y Trafodion, paragraff 262, 20 Mawrth 2019

88. Dywedodd Gwyn Howells wrth y Pwyllgor fod 18 o ladd-dai cig coch gweithredol yng Nghymru ac mae'r niferoedd yn gostwng yn raddol.⁶⁷ Eglurodd fod cwmnïau prosesu cig mwy yn atgyfnerthu eu gweithrediadau ger canolfannau poblogaeth mawr yn Lloegr, a oedd yn "her".⁶⁸ Cydnabu'r angen i gymell cwmnïau i fuddsoddi mewn ardaloedd gwledig.⁶⁹

89. Pwysleisiodd Huw Thomas bwysigrwydd cyfleusterau prosesu lleol. Fodd bynnag, cydnabu fod y lleoliad gorau posibl ar gyfer cyfleusterau yn amrywio o un cynnyrch i'r llall yn dibynnu ar ble mae'r lle gorau i ychwanegu gwerth.⁷⁰

90. Gwnaeth Andy Richardson bwynt tebyg:

"I think the question is not whether we have processing [facilities in Wales], the question is are we adding value. So, you could say, is it better to have a plant in Wales that produces a commodity, or is it better to supply product from Wales to a plant in, let's say, England, that actually adds value, because the bottom line should be adding value to Welsh produce..."⁷¹

91. Cyfeiriodd Huw Thomas at y "bwlch gwerth" fel rhwystr sy'n atal llawer o fusnesau bwyd gwledig rhag ehangu.⁷² Eglurodd fod gallu'r busnesau hyn i fenthyca yn erbyn asedau cyfalaf yn cael ei gwtogi'n ddifrifol gan brisio isel oherwydd eu lleoliad daearyddol. Fodd bynnag, yn achos Puffin Produce, mae cymorth ariannol gan Lywodraeth Cymru a'r UE wedi helpu i oresgyn yr hyn a fyddai wedi bod yn rhwystrau economaidd anorchfygol.⁷³

92. Honnodd yr Athro Marsden fod cyllid yn fater hollbwysig. Cyfeiriodd at yr angen i ddod o hyd i ffyrdd o greu systemau credyd yng Nghymru i ysgogi buddsoddiad mewn seilwaith lleol.⁷⁴ Awgrymodd fod angen eglurhad ar lefel a ffynonellau'r buddsoddiad yn y sector prosesu bwyd, gan dynnu sylw at y ffaith bod arian yr UE wedi cael ei ddefnyddio i dalu cost amrywiol mentrau sy'n deillio

⁶⁷ [Tystiolaeth ysgrifenedig. Hybu Cig Cymru](#)

⁶⁸ Cofnod y Trafodion, paragraff 41, 6 Mawrth 2019

⁶⁹ Cofnod y Trafodion, paragraff 41, 6 Mawrth 2019

⁷⁰ Cofnod y Trafodion, paragraff 131, 6 Mawrth 2019

⁷¹ Cofnod y Trafodion, paragraff 134, 6 Mawrth 2019

⁷² Cofnod y Trafodion, paragraff 128, 6 Mawrth 2019

⁷³ [Tystiolaeth ysgrifenedig. Puffin Produce](#)

⁷⁴ Cofnod y Trafodion, paragraff 264, 20 Mawrth 2019

o'r Cynllun Gweithredu. Ni fydd yr arian hwn ar gael mwyach ar ôl i'r DU ymadael â'r UE.⁷⁵

Casgliad 20. Rhaid i Lywodraeth Cymru wneud mwy i gryfhau a datblygu seilwaith yn y system fwyd. Dylai Llywodraeth Cymru gynnal ymarfer mapio i asesu'r capasiti prosesu presennol yng Nghymru gyda'r bwriad o nodi bylchau. Dylai canlyniad y gwaith hwn lywio datblygiad strategol cyfleusterau prosesu ledled Cymru, gan ganolbwyntio ar weithgareddau gwerth ychwanegol. Dylid rhoi blaenoriaeth i fynd i'r afael â bylchau mewn capasiti.

Casgliad 21. Dylai Llywodraeth Cymru sefydlu grŵp a arweinir gan y diwydiant i ystyried ymyriadau polisi posibl gyda'r nod o gynyddu capasiti prosesu yng Nghymru, gyda ffocws ar weithgareddau gwerth ychwanegol. Dylai'r grŵp hwn asesu, yn benodol, y cyfleoedd a'r risgiau sy'n deillio o Brexit, gan gynnwys y potensial i gynyddu capasiti prosesu yn y diwydiannau pysgota a dyframaeth.

Casgliad 22. Dylai Llywodraeth Cymru adolygu priodoldeb y cymorth presennol sydd ar gael i fusnesau prosesu bwyd newydd a phresennol. Dylai gynnwys asesiad o'r graddau y mae cymorth cyfredol yn mynd i'r afael â'r heriau penodol a wynebir gan fusnesau mewn ardaloedd gwledig sy'n ceisio ehangu.

⁷⁵ Cofnod y Trafodion, paragraff 249, 20 Mawrth 2019

Astudiaeth achos 4 - Medwyn's of Anglesey

Yn ystod ei ymchwiliad, cyfarfu'r Pwyllgor â Medwyn ac Alwyn Williams, o Medwyn's of Anglesey.

Mae Medwyn Williams yn arbenigwr adnabyddus mewn garddwriaeth ac yn dyfwr llysiau. Mae wedi ennill cyfres o wobrau ar y lefel uchaf, gan gynnwys 12 Medal Aur yn Sioe Flodau Chelsea, yn fwyaf diweddar eleni.

Mae Medwyn a'i fab Alwyn yn defnyddio technegau tyfu arloesol i drawsffurfio'r hyn y gellir ei dyfu a sut y caiff ei dyfu. Mae Medwyn ac Alwyn wedi datblygu cydberthnasau cryf â sawl cogydd, yn lleol ac o bell, a chyda cwmnïau rhyngwladol sy'n awyddus i fanteisio ar eu profiad a'u dealltwriaeth. Er enghraifft, mae cwmni hydroponeg o'r Iseldiroedd wedi dod yn bartner i Medwyn ac Alwyn i gefnogi eu harddangosfa yn Sioe Flodau Chelsea eleni lle gwnaethant lansio eu math diweddaraf o domato, y Ddraig Goch.

Mae gan Medwyn ac Alwyn weledigaeth o Ynys Môn yn cael ei datblygu yn ynys "dyfu", gan weithredu ar ei statws fel Môn Mam Cymru. Maent wedi cynhyrchu llyfryn sy'n cynnwys awgrymiadau ar gyfer tyfwyr llysiau sy'n nodi'r cynydau gorau ar gyfer pridd Ynys Môn. Cefnogwyd hyn gan Menter Môn.

Maent yn ymgyrchu am "gydgysylltydd marchnata" lleol i drefnu tyfwyr lleol er mwyn cydweithredu i fodloni gofynion y farchnad a gwarantu cyflenwad ffres bob amser. Hoffent weld mwy o bobl Ifanc yn cael eu hyfforddi mewn garddwriaeth fel y gallant rannu eu harbenigedd ac ehangu'r agwedd hon ar economi Ynys Môn.

Tynnodd Medwyn ac Alwyn sylw at y diffyg cymorth ariannol ar gyfer garddwriaeth. Trafodwyd yr angen i ddiogelwch bwyd fod yn ystyriaeth allweddol ar ôl Brexit.

5. Sgiliau a chyflenwad llafur

- 93.** Mae Papur Gwyn Mewnfudo Llywodraeth y DU (Rhagfyr 2018) yn cynnig creu un system fewnfudo newydd ar ôl Brexit sy'n rhoi mynediad i weithwyr medrus a medrus iawn o wledydd yr UE ac o wledydd eraill.
- 94.** Mae'r Papur Gwyn hefyd yn cynnig creu llwybr gwaith trosiannol ar gyfer gweithwyr byrdymor dros dro ar bob lefel. Bydd hyn yn caniatáu i weithwyr ddod i'r DU am hyd at 12 mis, ar yr amod eu bod yn bodloni meini prawf Llywodraeth y DU. Mae'r Papur Gwyn yn nodi na fydd llwybr mewnfudo penodol ar gyfer gweithwyr â sgiliau isel, ac eithrio gweithwyr amaethyddol tymhorol.
- 95.** Os bydd Brexit "dim cytundeb", bydd angen i ddinasyddion yr UE sy'n dymuno gweithio yn y DU am fwy na thri mis ar ôl iddi ymadael â'r UE, wneud cais am Absenoldeb Ewropeaidd Dros Dro i Aros, sy'n ddilys am hyd at dair blynedd. Bydd angen i ddinasyddion yr UE sy'n gwneud cais cyn 2021 i aros am fwy na thair blynedd wneud cais o dan y system fewnfudo newydd a gyflwynir yn 2021. O 2021 ymlaen, bydd angen i holl ddinasyddion yr UE sy'n dymuno gweithio yn y DU wneud cais o dan y system newydd.

Tystiolaeth gan y rhanddeiliaid

Y sector prosesu bwyd

- 96.** Mynegodd y rhanddeiliaid bryder ynghylch effaith polisi mewnfudo ar ôl Brexit ar recriwtio a chyflogi gweithwyr yr UE, sy'n ffurfio cyfran sylweddol o'r gweithlu yn y sector prosesu bwyd yng Nghymru.
- 97.** Dywedodd Gwyn Howells wrth y Pwyllgor y gallai effaith Brexit ar y cyflenwad llafur mewn cyfleusterau prosesu fod yn eithaf sylweddol o ystyried y ddibyniaeth ar weithwyr mudol. Dywedodd, mewn rhai cyfleusterau prosesu mawr yng Nghymru, fod dros 50 y cant o'r gweithlu yn weithwyr mudol, yn bennaf o'r UE.⁷⁶ Roedd yn ffafrio system fewnfudo yn y dyfodol a fydd yn seiliedig ar y gallu i ddod o hyd i waith a bydd yn cynnwys nid yn unig y gweithlu medrus ond y gweithlu heb sgiliau.⁷⁷
- 98.** Eglurodd Gwyn Howells y bydd yn anodd iawn disodli gweithwyr mudol yr UE â gweithwyr cynhenid, sy'n ymddangos yn anfodlon gweithio mewn lladd-dai a gweithfeydd torri cig. Soniodd am fater tebyg yng Ngweriniaeth Iwerddon, sydd

⁷⁶ Cofnod y Trafodion, paragraff 80, 6 Mawrth 2019

⁷⁷ Cofnod y Trafodion, paragraff 81, 6 Mawrth 2019

wedi arwain at gyflwyno cynllun i ddenu gweithwyr o wledydd De America i weithfeydd prosesu. Awgrymodd y gallai fod angen i Lywodraeth y DU ystyried cyflwyno cynllun tebyg.⁷⁸

99. Dywedodd Huw Thomas wrth y Pwyllgor fod pryderon ynghylch y farchnad lafur dynnach yn un o brif ysgogiadau buddsoddiad diweddar Puffin Produce mewn awtomeiddio.⁷⁹ Er bod yr Athro Terry Marsden yn cydnabod yr angen i ddatblygu polisi bwyd ac amaethyddiaeth sy'n croesawu technoleg ac awtomeiddio lle mae'n ddefnyddiol, awgrymodd fod ei rôl yn mynd i'r afael â phrinder llafur yn y sector wedi cael ei or-bwysleisio.

100. O ran gweithwyr medrus, mae'r sector milfeddygol yn ddibynnol iawn ar lafur mudol. Mae 25 y cant o'r milfeddygon yng Nghymru yn ddinasyddion yr UE nad ydynt yn dod o'r DU. Mae'r sefyllfa'n arbennig o ddifrifol yn y sector hylendid cig lle mae amcangyfrifon yn awgrymu bod 95 y cant o filfeddygon o dramor, gyda'r mwyafrif yn ddinasyddion yr UE nad ydynt yn dod o'r DU.

101. Mewn tystiolaeth i ymchwiliad parodrwydd Brexit y Pwyllgor Materion Allanol a Deddfwriaeth Ychwanegol, galwodd Cymdeithas Filfeddygol Prydain am i'r system fewnfudo newydd flaenoriaethu'r proffesiwn milfeddygol. Galwodd hefyd i filfeddygon gael eu hadfer yn syth i'r Rhestr Galwedigaeth mewn Prinder, o leiaf yn y byrdymor.

102. Mae'r Gweinidog eisoes wedi dweud wrth y Pwyllgor fod Llywodraeth Cymru yn gweithio gyda'r Swyddfa Gartref i ddangos pwysigrwydd milfeddygon cymwys yr UE i'r sector hylendid cig yng Nghymru.⁸⁰ Cynrychiolir Llywodraeth Cymru ar fwrdd y Prosiect Gallu a Chapasiti Milfeddygol, sy'n ceisio datblygu gweithlu milfeddygol sy'n diwallu anghenion y DU ar ôl Brexit.

Y diwydiant twristiaeth a lletygarwch

103. Fel y sector prosesu bwyd, mae'r diwydiant twristiaeth a lletygarwch yn ddibynnol iawn ar weithwyr mudol yr UE. Cyfeiriodd David Chapman at ganfyddiadau adroddiad KPMG, *Labour migration in the hospitality sector* (Mawrth 2017), a oedd yn nodi y bydd gan y sector broblem ddifrifol gyda phrinder gweithwyr mudol ar ôl Brexit.

⁷⁸ Cofnod y Trafodion, paragraff 85, 6 Mawrth 2019

⁷⁹ Tystiolaeth ysgrifenedig, Puffin Produce

⁸⁰ <http://record.assembly.wales/Committee/4886>

104. Eglurodd Andrew Campbell fod prinder staff eisoes yn fater allweddol i fusnesau.⁸¹ Cyfeiriodd at y ffaith bod rhagolwg sy'n awgrymu bod 330,000 o ddinasyddion yr UE yn ystyried gadael y DU erbyn 2020 wedi creu panig llwyr yn y diwydiant twristiaeth.⁸²

105. Mynegodd David Chapman ac Andrew Campbell bryder ynghylch effaith y trothwy isafswm cyflog arfaethedig o £30,000 ar y diwydiant twristiaeth a lletygarwch⁸³ ar gyfer mudwyr yr UE o dan y system fewnfudo newydd. Galwodd David Chapman am roi trefniadau trosiannol digonol ar waith, o leiaf, ar gyfer rhannau allweddol o'r diwydiant lle mae prinder eisoes yn bodoli.⁸⁴

106. Yn fwy cyffredinol, eglurodd David Chapman fod y diwydiant lletygarwch yn wynebu heriau o ran denu gweithwyr y DU oherwydd canfyddiadau negyddol o'r diwydiant ymhlith ceiswyr gwaith. Cyfeiriodd at ddiffyg ymwybyddiaeth o'r ystod lawn o gyfleoedd cyflogaeth sydd ar gael ar draws y diwydiant ac eglurodd fod UK Hospitality Cymru yn cymryd camau i fynd i'r afael â hyn.⁸⁵

Casgliad 23. Clywodd y Pwyllgor fod mynediad at lafur yn her allweddol i'r diwydiant bwyd a diod, a'r diwydiant twristiaeth a lletygarwch. Mae'r rhain i gyd yn dibynnu'n drwm ar weithwyr mudol yr UE. Bydd newidiadau i'r polisi mewnfudo ar ôl Brexit yn arwain at system lawer mwy cyfyngol ar gyfer gweithwyr mudol yr UE sydd â sgiliau isel a gallai arwain at brinder sylweddol o weithwyr yn y diwydiannau hyn. Gall rhai sectorau, er enghraifft, y sector prosesu cig coch, fod yn arbennig o agored i niwed, o gofio'r anawsterau penodol y maent yn eu hwynebu wrth ddenu gweithwyr yn y DU.

Casgliad 24. Dylai Llywodraeth Cymru nodi ei safbwynt ar system fewnfudo newydd arfaethedig Llywodraeth y DU. Yn benodol, y trothwy isafswm cyflog arfaethedig o £30,000 ar gyfer gweithwyr medrus canolig ac uchel. Wrth wneud hynny, dylai Llywodraeth Cymru egluro'r effaith y mae'n disgwyl i'r cynigion hyn ei chael ar y diwydiant bwyd a diod, a'r diwydiant twristiaeth a lletygarwch yng Nghymru.

Casgliad 25. Efallai y bydd rhaglen waith barhaus Llywodraeth Cymru i fynd i'r afael â phrinder sgiliau yn y gweithlu yng Nghymru, gan gynnwys ei strategaeth, *Trawsnewid Sgiliau yn y Diwydiant Bwyd a Diod yng Nghymru*, yn gwella

⁸¹ Cofnod y Trafodion, paragraff 231, 20 Mawrth 2019

⁸² Cofnod y Trafodion, paragraff 231, 20 Mawrth 2019

⁸³ Mae trothwy isafswm cyflog o £30,000 yn berthnasol i weithwyr mudol nad ydynt yn rhan o'r UE o dan gynllun mewnfudo presennol y DU.

⁸⁴ Cofnod y Trafodion, paragraff 227, 20 Mawrth 2019

⁸⁵ Cofnod y Trafodion, paragraff 223-227, 20 Mawrth 2019

rhywfaint ar argaeledd llafur yn y diwydiant bwyd a diod, a'r diwydiant twristiaeth a lletygarwch, yn y tymor hwy. Fodd bynnag, mae'n aneglur sut y mae Llywodraeth Cymru yn bwriadu lliniaru effaith cyfyngiadau ar fynediad i weithwyr mudol yr UE ar y diwydiannau hyn yn y cyfnod yn union ar ôl Brexit ac yn y tymor byrrach. **Rhaid i Lywodraeth Cymru egluro'r mater hwn fel mater o frys.**

Atodiad: Tystiolaeth lafar

Darparodd y tystion a ganlyn dystiolaeth lafar i'r Pwyllgor ar y dyddiadau a nodir isod. Mae trawsgrifiadau o'r holl sesiynau tystiolaeth lafar ar gael yn llawn yn:

[Trawsgrifiadau](#)

Dyddiad	Enw a Sefydliad
6 Mawrth 2019	Gwyn Howells, Hybu Cig Cymru Andy Richardson, Bwrdd Diwydiant Bwyd a Diod Cymru Huw Thomas, Puffin Produce
20 Mawrth 2019	Dr Matthew O'Callaghan OBE, UK Protected Food Names Wynfford James, Sgema Ltd Dr Robert Bowen, Prifysgol Abertawe David Chapman, UK Hospitality Cymru Andrew Campbell, Cynghrair Twristiaeth Cymru Simon Wright, Wright's Independent Food Ltd